tafod elái

TACHWEDD 2016

Rhif 312

Pris 80c

Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr Taf Elai, 2017

Ddydd Sadwrn yr 8fed o Hydref, roedd tref Pen-y-bont yn fôr a goch, gwyn a gwyrdd wrth i oddeutu 4000 o bobl orymdeithio i ddathlu dyfodiad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Ben-y-bont, Taf ac Elái fis Mai 2017. Roedd bandiau samba, ceffylau heddlu, gwleidyddion a Mr Urdd yn arwain y ffordd a gwelwyd Baneri'r 30 ysgol a choleg yn cael eu chwifio â balchder ar hyd y daith i gaeau Bontnewydd. Diolch yn fawr i'r ysgolion am gymryd rhan.

Mae'r Ŵyl Gyhoeddi wrth gwrs yn gyfle i blant, pobl ifanc, athrawon, rhieni a phobl leol ddathlu a dangos eu cefnogaeth i Eisteddfod yr Urdd, fydd yn dod i'r ardal 29 Mai – 3 Mehefin 2017. Cafwyd blas yn wir o Eisteddfod yng nghaeau Bontnewydd gyda llond y lle o adloniant gan gynnwys cerddoriaeth fyw gan Danielle Lewis, Mabli Tudur a band swing Pen-y-bont. Hefyd ar y prif lwyfan daeth Catrin a Huw o Cyw i ddiddanu'r dorf Iau ac roedd ail lwyfan hefyd gyda pherfformiadau gwych gan blant yr ardal. Roedd hyn ynghyd â'r stondinau lu, gweithgareddau chwaraeon, y candi fflos a'r tywydd sych wedi creu diwrnod bythgofiadwy a Gŵyl Cyhoeddi arbennig iawn.

Diolchwn yn fawr i'r cynghorau tref a chymuned, cynghorau Penybont a Rhondda Cynon Taf yn ogystal ag ysgolion, aelwydydd, grwpiau a'r llu o unigolion ddaeth i gyfrannu at lwyddiant yr Ŵyl Gyhoeddi. Mae'n argoeli'n dda ar gyfer 2017!"

Ffisio Clwb Rygbi Pentyrch yn y Gemau Olympaidd

Bues i allan yn gweithio fel ffisiotherapydd gyda Thîm Prydain yn y Gemau Olympaidd yn Rio am bum wythnos. Ro'n i'n gweithio yn y British School - safle oedd wedi cael ei gynllunio'n unswydd ar gyfer Tîm Prydain. Roedd gen i rôl hefyd gyda'r tîm hwylio a bum yno am bythefnos yn eu cefnogi nhw. Am yr wythnos gynta bues i'n teithio'n ôl a blân - siwrne o awr a chwarter ar ddiwrnod da neu dair awr a hanner os odd y traffig yn wael. Doedd y staff diogelwch ddim yn rhy hapus i fi deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac roedd yn ormod o her i fy 'chydig Bortiwgieg. Fy mhrif gyfrifoldeb oedd sicrhau gwella buan i'r hwylwyr ar ôl iddyn nhw gystadlu neu'r rhai oedd wedi eu hanafu, yn ôl yn y gwesty. Un o'm hatgofion melysa oedd cwrdd ag Andy Murray a chael y cyfle un prynhawn i fynd lan i weld y cerflun eiconig, *Cristo Redentor* - wel, odd rhaid neud e, 'ndoedd?! Gyda chanlyniadau mor anhygoel i Dîm GB allen ni ddim bod wedi gofyn am fod yn rhan o rywbeth mwy cofiadwy.

Nawr nôl i ofalu am y bois yn nhîm cynta Pentyrch.

Siân Harries

Parti'r Efail yn un ar hugain!

Fel rhan o ddathliadau un mlynedd ar hugain eu bodolaeth, bu Parti'r Efail yn ymweld â'r man lle cychwynnodd yr ysfa gystadleuol gyntaf erioed yng Nghymru - Castell Aberteifi. Yno (ymhell cyn dyddiau Parti'r Efail hyd yn oed!) y cynhaliodd yr Arglwydd Rhys yr Eisteddfod gyntaf un yn 1176.

Anodd credu efallai, ond mae Parti'r Efail bellach wedi dal ati'n ddi-fwlch er 1995, gan gystadlu a chynnal nosweithiau ar hyd a lled Cymru. Ffurfiwyd nhw gan Menna Thomas ar gyfer Gŵyl Cerdd Dant Pen-y-bont ar Ogwr y flwyddyn honno ac maen nhw wedi ymddangos ym mhob prifwyl a gŵyl cerdd dant byth ers hynny.

Am unwaith, roedd y daith yn un ddi-gyngerdd a di-gystadleuaeth, ond yn cynnwys taith ddifyr ac addysgiadol o gwmpas y castell ar lan Afon Teifi, lleoliad sydd wedi gweld sawl gweddnewidiad ers dyddiau'r Arglwydd Rhys. Yn y llun gwelir y criw, a'u cefnogwyr selog, o flaen un o'r muriau mae'r gwybodusion yn credu sy'n mynd yn ôl i gyfnod gweddol gynnar yn hanes y castell.

Mae'r aelodau'n ôl bellach yn ymarfer yn Efail Isaf i baratoi ar gyfer yr Ŵyl Cerdd Dant ym Mhwllheli ar Dachwedd 12.

Arddangosfa'n dathlu pen-blwydd arbennig

Roedd 80 yn noson gynta arddangosfa oedd yn dathlu bod yr artist Glyn Jones, sy'n byw yn Ffynnon Taf, yn 80 oed.

Cafodd yr arddangosfa ei chynnal yn Oriel Kooywood yng Nghaerdydd rhwng Hydref 13 a Thachwedd 5.

Yno hefyd roedd gwaith Eric Malthouse a David Tinker, dau o'i diwtoriaid yng Ngholeg Celf Caerdydd sefydlodd Grŵp 56 oherwydd yr angen i arddangos gweithiau artistiaid o Gymru. Ymhlith lluniau Glyn roedd Hydref Haicw a chyfeiriodd at yr artist o America Robert Motherwell ddywedodd fod y ffurf farddonol yn hybu'r darllenydd i fod yn rhan o'r broses. Nod y bardd a'r artist, meddai Robert, oedd 'creu'r ysbrydol fel bod modd i'r darllenydd feddu arno'.

Dywedodd Glyn fod addurnwaith Celtaidd, celfyddyd a chrefft Gogledd Affrica, Yr India a'r Dwyrain Pell wedi dylanwadu arno yn ogystal â'i brofiadau wrth deithio yn y gwledydd hyn.

Shwd oedd e'n gweithio? ' ... mae dyfeisio yn y fan a'r lle a hap a damwain yn creu ac yn torri ar draws fy "nefod" i,' meddai 'a lliw, ffurf a phaentio'n arwain at ddelwedd sy'n golygu rhywbeth i fi, rhywbeth gobeithio y galla i ac eraill feddu arno fe.'

Cafodd ei eni yn Nhynewydd yn Y Rhondda. Astudiodd yng Ngholeg Celf Caerdydd cyn mynd i Ysgol Gelf Slade yn Llundain ble oedd Ceri Richards yn diwtor. Roedd llun o'r enw Teyrnged i Ceri Richards yn yr arddangosfa yn Oriel Kooywood.

Yn 1972 cafodd Glyn ei benodi'n Bennaeth Ysgol y Celfyddau Cain yng Nghaerdydd. Fe ddaeth yn athro yn 1994. Ymddeolodd yn 2001.

Mae arddangosfeydd unigol o'i waith wedi bod yng Nghaerdydd, Llundain ac Efrog Newydd a'i waith wedi bod yng nghasgliadau Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Oriel Genedlaethol Slofacia.

Martin Huws

Tomos a Daniel Angell a Michael Roberts aelodau o dîm cymysg rygbi cyffwrdd Cymru o dan 18. (Tudalen 6)

Clwyd Trivandrum gan Glyn Jones

Ysgol Creigiau (Tudalen 7)

Siôn Davies a Huw Evans, dau o ddisgyblion yr ysgol a ddewiswyd i ymuno â Charfan Rygbi Ysgolion Caerdydd. Ar ôl eu cyfarfod cyntaf gyda'r garfan, fe ofynnwyd i Siôn fod yn gapten y garfan am eleni. Anrhydedd o'r mwyaf. Gwych fechgyn!

Disgyblion Blwyddyn 6 yn mwynhau holl antur Llangrannog.

Aelodau o Bwyllgor SNAG a roddodd sgwrs i ddisgyblion pob dosbarth am bwysigrwydd cadw'n dwylo'n lân.

Enwau Strydoedd

Ydych chi'n gwybod am enwau cynhenid strydoedd yn y Gymraeg yn ardal y Rhondda, Cwm Cynon a Thaf Elái? ... y rhai sydd wedi 'u disodli, llygru neu ddiflannu dros y blynyddoedd?

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn awyddus clywed oddi wrthoch chi. Mae'r cyngor eisiau parchu'r enwau a fu wrth ddodi enwau dwyieithog ar y rhai sydd yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd wrth adnewyddu arwyddion. Ni fydd cyfieithiad i'r Saesneg ble mae enw uniaith Gymraeg yn bodoli a bydd enwau strydoedd newydd yn Gymraeg yn unig yn y dyfodol.

Rhowch wybod ar frys naill ai drwy'ch Papur Bro, eich Cymdeithas Gymraeg leol neu Swyddog Iaith y cyngor swyddogiaith@rctcbc.gov.uk / 01443 744069.

Diolch am eich cymorth!



Llwyddiant i'r Golffwyr

Wel am dymor i dîm golff iau Clwb Golff Creigiau. Fe lwyddon nhw gyrraedd rownd derfynol Cwpan Dwyrain Morgannwg. Guron nhw Radyr, Llanishen, Eglwys Newydd a Chaerdydd. Yn anffodus colli oedd eu hanes yn y rownd derfynol. Diolch i Bethan Griffith, Jackie Stamenkovic a Dave John am roi o'u hamser yn ddi-flino.
O'r cefn chwith i'r dde - Lloyd John, Jorge Randall, George Harris, Ben Webb Rhes flaen - Taylor Hughes, Rhys Davies, Larry Ryan, Gruff Roberts. Aelodau ychwanegol heb fod yn y llun - Henry Burns a Richard Evans.

Jac Dylan a'i frawd mawr Thomas mab Robert Lamb a'i wraig Sim, Llantrisant (tudalen 7)

"Dyma lun o gyn-drigolion Dyffryn Nantlle a fu'n rhoi croeso i Karen Owen o Benygroes (Gwynedd) wedi iddi anerch Cylch Cadwgan yng Nghlwb Rygbi Pentyrch nos Iau yr 20fed o Hydref 2016.

[Yn y llun gwelir (o'r chwith i'r dde) Ann Dwynwen, Eifion Glyn, Rhodri, Karen Owen, Marian, Arwel a Rowena.]

Ysgol Llantrisant

Llangrannog
Nôl ym mis Medi fe aeth bron i gant o blant a staff i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog ar gyfer penwythnos hwyliog a phrysur. Fe gafodd pawb amser gwych a diolch yn fawr i'r staff am roi o'u hamser er mwyn i'r disgyblion gael cyfle i gymdeithasu a mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg.

T Llew Jones
Buom yn dathlu Diwrnod T Llew Jones ar Hydref yr 11eg. Fe wisgodd yr holl ddisgyblion fel cymeriadau o lyfrau'r awdur a chafwyd cyfle yn ystod y dydd i gyflawni tasgau'n seiliedig ar yr awdur a'i waith.

Sgio
Llongyfarchiadau i Harri Stiff o Flwyddyn 5 ar ennill mewn cystadleuthaeth sgio a drefnwyd gan yr Urdd yn ddiweddar. Llwyddodd Harri i ddod yn ail yn y gystadleuaeth i fechgyn dan ddeg oed! Da iawn ti Harri!

Blwyddyn 6
Ar Hydref y 17eg, fe aeth 60 o ddisgyblion Blwyddyn Chwech ar eu hymweliad cyntaf eleni, ag Ysgol Gyfun Llanhari. Yn ystod y dydd, fe gawson nhw gyfle i brofi gwersi celf, cerdd, drama a pherfformio. Roedd pawb wrth eu boddau ac yn edrych ymlaen at eu hymweliad nesaf!

Chwaraeon
Fe fu timau o'r ysgol yn cystadlu mewn cystadlaethau rygbi a phêl-rwyd yn ddiweddar – da iawn i bawb a gynrychiolodd yr ysgol.

Pob lwc!
Pob lwc i Ms Kirsty Turner ar ei swydd newydd yn y Bontfaen ac i Mr Siôn Williams sydd newydd ddechrau ar secondiad fel Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Cwm Garw. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Blas ar chwaraeon
Fe ddaeth Amy a Liam o'r Urdd atom yn ddiweddar er mwyn cynnig sesiynau "Blas ar Chwaraeon" i'r holl ddisgyblion o'r dosbarth Meithrin hyd at Flwyddyn 3. Cafwyd llawer iawn o hwyl gan bawb.

Gorymdaith Gyhoeddi
Braf oedd gweld y disgyblion a ddaeth i Benybont yn ddiweddar, er mwyn cymryd rhan yng Ngorymdaith Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2017. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddar i gael yr eisteddfod ar stepen y drws!

Gwyn a'i ffrindiau ar y gondola yn Fenis. (Tudalen 9)

Yvonne Evans yng nghwmni Merched yWawr, Cangen y Garth, ym mis Medi

Daniel Jenkins-Jones – gwestai MyW, Cangen y Garth, mis Hydref (Tudalen 11)

Noson Cwis a Bingo Efail Isaf (Tudalen 5)

Rhys Meirion ac Iris Williams Deuawdau ar S4C (Tudalen 5)

Alys Thomas a'i phoster (Tudalen 6)

Bethan Ellis Owen (Tudalen 6)



EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan a llwyr i Ifan Glyn, Waunhir sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar. Estynnwn ein dymuniadau gorau hefyd i Pat Edmunds, Penywaun ar gyfer ei thriniaeth yn ystod yr wythnosau nesaf.

Siop y Pentref yn estyn llaw
Fore Gwener, y 30ain o Fedi cafodd pob cwsmer a alwodd yn Siop y Pentref gynnig paned a theisen yn gyfnewid am gyfraniad i Gronfa MacMillan. Codwyd yn agos i ddau gan punt at yr elusen.

Cydymdeimlo
Dymuna holl aelodau Côr yr Einion estyn eu cydymdeimlad diffuant i'n harweinyddes, Siân Griffiths, adeg marw ei mam yn ddiweddar. Roedd Mrs Parry o Benygraig, Y Rhondda yn 96 mlwydd oed a bregus iawn fu ei hiechyd ers blwyddyn neu ddwy.

Codi Arian i Eisteddfod yr Urdd
Cystadleuaeth Golff
Trefnwyd Cystadleuaeth Golff llwyddiannus iawn yng Nghlwb Golff y Creigiau ddydd Sul, Hydref 2il i godi arian ar gyfer Cronfa Eisteddfod yr Urdd Penybont ar Ogwr, Taf Elái. Daeth wyth ar hugain o dimau i ymryson am y gwobrau. Tîm Dewi Rees a'i gyd-chwaraewyr Daniel, Matthew a Geraint oedd yn fuddugol. Yn ail daeth Tîm Gafyn Powell a thîm Brian Mills yn drydydd. Roedd yna ddwy gystadleuaeth arall. Bruan Treharne drawodd yr ergyd hiraf a Mike Newth oedd yn agosaf at y faner. Mae Gwilym Treharne, a drefnodd y gystadleuaeth, am ddiolch i bawb a gefnogodd y fenter gan greu diwrnod arbennig a chwyddo CRONFA'R Eisteddfod yn sylweddol.

Noson Cwis a Bingo
Trefnwyd noson gymdeithasol i godi arian i Gronfa'r Eisteddfod yn Neuadd y Pentref nos Sadwrn, Hydref 15fed. Yn ôl Ann Griffiths, trefnydd y noson, cafwyd cefnogaeth ardderchog gan y gymuned yn Efail Isaf. Gwnaed elw o £800 i Gronfa'r Eisteddfod.

Taith bws i Gaerfyrddin
Trefnwyd digwyddiad arall i godi arian i'r Eisteddfod. Cafwyd cynnig bws gan Gwmni Bysiau Edwards yn rhad ac am ddim i fynd i Gaerfyrddin am y dydd. Ddydd Mercher, Hydref 19eg teithiodd nifer dda o ferched, (ac un dyn bach dewr) ym mws moethus tîm pêl-droed Cymru i Gaerfyrddin ac yna yn ôl i Westy Parc Strade i gael te prynhawn blasus. Diolch i Beti Treharne a Beryl Rowley am drefnu'r daith a ddaeth a £375 o elw i Gronfa'r Eisteddfod.

Y TABERNACL
Gwasanaeth Diolchgarwch
Daeth cynulleidfa deilwng iawn i'r Tabernacl fore Sul, yr 16eg o Hydref i ymuno yn y Gwasanaeth diolchgarwch. Plant yr Ysgol Sul a'r Twmiaid fu'n cynnal y Gwasanaeth a lywiwyd yn ddeheuig iawn gan Heulyn Rees a Beth Reynolds. Thema'r Twmiaid oedd Trychinebau. Cyfeiriwyd at y trychineb ofnadwy a ddigwyddodd yn Aberfan hanner can mlynedd yn ôl. Soniwyd am drychinebau cyfoes yn Aleppo, yr Affrig a'r trallod a'r dinistr a achoswyd gan gorwynt Matthew yn Haiti. Thema'r plant lleiaf oedd Arch-arwyr gan bwysleisio pwysigrwydd helpu ein gilydd. Diolch i dîm athrawon yr Ysgol Sul a'r Twmiaid am Wasanaeth pwrpasol a graenus. Cyfrannwyd yn helaeth tuag at y Banc Bwyd ym Mhontyclun yn ystod yr Oedfa.

Helpu'r Ffoaduriaid
Fel y soniais yn rhifyn mis Hydref bu aelodau'r Tabernacl yn brysur yn casglu a didoli dillad a nwyddau i'w hanfon i'r ffoaduriaid yng ngwersyll Moria ar Ynys Lesbos yng Ngwlad Groeg. Gellir gweld lluniau o'r ffoaduriaid yn derbyn a gwisgo'r dillad ar wefan y capel www.tabernacl.org

Merched y Tabernacl
Ddydd Iau, Hydref 20fed teithiodd nifer dda o aelodau'r Tabernacl i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Fe ddaeth ein tywysydd arferol, Ann Saer, i'n cyfarfod, ond eleni ar ôl cael paned a chlonc cawsom ein harwain i lyfrgell yr Amgueddfa. Yno i'n cyfarfod i roi hanes y llyfrgell inni oedd Jennifer Evans, un o'r llyfrgellwyr. Rhoddodd hanes adeiladu'r adeilad gan sôn am brif bwrpas y llyfrgell yn cefnogi staff yr Amgueddfa ac yn darparu cefnogaeth i ymchwilwyr. Soniodd wedyn am hanes sefydlu Gwasg Gregynog. Cawsom y fraint o weld a thrafod (gyda menig am ein dwylo) gasgliad personol Gwendoline Davies o rai o'r llyfrau mwyaf cain yn eu rhwymiadau lledr. Roedd y llyfrau yma'n wledd i'r llygad ac yn fraint inni gael eu dal yn ein dwylo. Diolch i Ann Saer ac i Marian Wynne am drefnu'r bore.

Bydd ein cyfarfod nesaf yng Nghanolfan y Tabernacl ddydd Mawrth, Tachwedd 15fed am hanner awr wedi deg y bore. Byddwn yn croesawu Liz West i'n plith i baratoi ar gyfer y Nadolig. Croeso cynnes i bawb.

Does unlle yn debyg i adref i Iris Williams!

Roedd diweddglo cyffrous i gyfres **Deuawdau Rhys Meirion** ar S4C, wrth i Rhys deithio i Efrog Newydd i gwrdd â'r gantores jazz fyd enwog o Bontypridd, Iris Williams.

"Symudais i Efrog Newydd yn 1992 achos y freuddwyd oedd gwneud cabaret, sy'n boblogaidd iawn yn Efrog Newydd a Chalifornia," meddai Iris Williams, gafodd ei geni ym Mhontypridd yn 1944. "Felly symud er mwyn cael gwaith wnes i, ond wrth gwrs mae'r ddinas yma yn un hynod o gyffrous."

Yn y rhaglen, bu Rhys Meirion ac Iris Williams yn crwydro Efrog Newydd, cartref cerddorol mawrion y byd jazz a chabaret, a chanu i gyfeiliant y piano.

Bu'r ddau hefyd yn ymweld ag Eglwys Rutgers yng nghanol Manhattan ar gyfer gwasanaeth Gymraeg arbennig sy'n cael ei chynnal unwaith y mis.

Er bod Iris Williams bellach wedi byw yn Efrog Newydd ers dros ugain mlynedd, mae Cymru yn parhau i fod yn agos at ei chalon, ac mae hi'n aml yn hiraethu am gartref.

"Roedd symud i Efrog Newydd yn hynod o gyffrous ond ro'n i'n nerfus iawn hefyd. Pan ydych chi'n dod o Gymru ac wedi darllen am Efrog Newydd, a gweld y ddinas mewn ffilmiau, mae dod i fyw mewn dinas o'r maint hwn yn hollol ffantastig," meddai Iris, sydd wedi derbyn OBE am ei chyfraniad i gerddoriaeth, ac sy'n aelod o Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Hefyd yn y rhaglen, bu Iris yn teithio nôl i Gymru i recordio deuawd arbennig yn Tŷ Cerdd gyda Rhys Meirion a pherfformio rhifyn arbennig o *Pererin Wyf* gyda Chôr Treorci a Chordydd. Roedd hefyd gyfle unigryw i'w gweld hi'n ymweld â'i chartref lle y magwyd yn Nhonyrefail, ger Pontypridd.

Bydd cryno ddisg gyda detholiad o ddeuawdau'r gyfres yn cael ei ryddhau yn Rhagfyr 2016.

Mae cyfle i wylio *Deuawdau Rhys Meirion* ar alw ar wefan s4c.cymru

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Tachwedd
Tachwedd 6ed Y Parchedig Gethin Rhys ac aelodau'r Groesfaen
Tachwedd 13eg Y Parchedig Ddoctor R. Alun Evans
Tachwedd 20fed Allan James a Chyfarfod Blynyddol
Tachwedd 27ain Y Parchedig Dewi Myrddin Hughes

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Enillydd Cenedlaethol!
Llongyfarchiadau mawr i Alys Thomas, ar ennill cystadleuaeth creu poster ymwybyddiaeth peryglon Carbon Monoxide. Daeth poster - dwyieithog - Alys ar y brig trwy Gymru gan ennill iddi wobr o £150 a siec am £300 i'w hysgol, sef Ysgol Gynradd Gymraeg, Llantrisant. Aeth ymlaen i'r rownd Brydeinig gan ennill yr ail -wobr yno hefyd! Derbyniodd Alys ei gwobr yn Nhy'r Cyffredin, Llundain ym mis Medi. Noddwyd y gystadleuaeth gan Grŵp Rhyng-bleidiol y Llywodraeth ar godi Ymwybyddiaeth peryglon Carbon Monoxide. Ardderchog Alys!

Croeso adre!
Braf deall bod teulu bach Geraint ac Eleri (Knight) Rees ' nôl adre yn eu cartre yn y Teras wedi cyfnod lan 'da'r Gogs! Aeth pedwar lan (Geraint, Eleri, Dafydd a Gruffydd!) a daeth pump yn ôl! Cafodd Mali fach ei geni tra roedd y teulu yn byw lan ym Methesda gyda Geraint yn gweithio yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Bellach mae Geraint nôl wrth ei waith fel anaesthetydd yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd ac Eleri â swydd arbennig o ddiddorol yn y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant.

Llwyddiant i 3 o fechgyn Creigiau yn yr Iseldiroedd
Llongyfarchiadau i 3 o fechgyn Creigiau am gynrychioli tîm cymysg rygbi cyffwrdd Cymru o dan 18 mewn cystadleuaeth Iau Ewrop dros yr haf.

Mae 'r brodyr Tomos a Daniel Angell a Michael Roberts yn gyn ddisgyblion Ysgol Gynradd Creigiau ac yn ddisgyblion yn Ysgol GG Plasmawr. Mae Tomos Angell bellach yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Lerpwl.

Aeth y tri allan i Arnhem yn Yr Iseldiroedd ar ddydd Iau 18fed o Awst i gystadlu yn erbyn timau o'r Alban, Gurnsey, Yr Iseldiroedd, Ffrainc, Lloegr, Iwerddon, a'r Dwyrain Canol.

Mwynheuodd Cymru lwyddiant ysgubol gan ennill pob gêm yn y gystadleuaeth gan cynnwys y gêm derfynol yn erbyn yr Alban gyda sgôr o 6 cais i 3. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i'r tîm cymysg ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Ewrop!

Dywedodd Ann Angell, Mam Tomos a Daniel " mae'r bechgyn wrth eu bodd yn chwarae'r gêm rygbi cyffwrdd. Mae'r gêm yn gyffrous, yn llawn sgiliau ac yn gyflym iawn. Diolch i Gymdeithas Rygbi Cyffwrdd Cymru am y cyfleoedd a'r profiadau gwych mae'r bechgyn wedi fwynhau"

Colli ffrind da
Gyda thristwch mawr y nodaf i ni golli ffrind a chyfaill annwyl iawn ar ddiwrnod cyntaf mis Hydref. Yn yr Ysbyty yn Llantrisant bu farw Heddwyn Richards yn sgîl llawdriniaeth. Gŵr y ddiweddar Pegi, a thad, taid, hen-daid a thad-yng-nghyfraith ffyddlon a pharchus. Yn frodor balch o Faes y Bont, gwyddonydd wrth ei waith a dyn aml-dalentog a ffraeth. Gwelwn ei golli yn arw. Bu'r angladd yn yr Eglwys yn Radur, ddydd Llun, Hydref yr 17eg. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

Pob lwc, Bethan!
Llongyfarchiadau mawr i Bethan Ellis Owen ar gael ei henwebu am un o wobrau arobryn y sefydliad Mind am ei phortread o Ffion ar Pobol y Cwm. Fel y gŵyr y gwylwyr cyson mae Ffion wedi wynebu amser caled iawn dros y blynyddoedd diwethaf - ei phroblemau yn pentyrru a'i dibyniaeth ar alcohol yn dwysau. Bydd Bethan yn teithio i Lundain ym mis Tachwedd i'r seremoni fydd yn datgan pa un o dri actor yn y categori sebon/cyfres barhaol fydd yn cipio'r wobr gyntaf! Pob lwc i ti Bethan wrth i ti ymgiprys yn erbyn y cymeriad Drew ar 'River City', BBC yr Alban a Stacey a bortreadir gan Lacey Turner ar 'EastEnders'. Dros Gymru!

Llongyfarchiadau ...
... a phob dymuniad da i Dylan Jones, Meisgyn wrth iddo gychwyn ar ei dymor newydd yn Rhydychen. Astudio'r Gyfraith fydd Dylan a gobeithio y caiff gyfle i ddangos ei ddoniau ffensio tra'n fyfyriwr.

Mabli Tudur
Llongyfarchiadau mawr Mabli ar dy gyfraniad tyner a theimladwy i gyngerdd er cof am drychineb erchyll Aberfan, *Cantata Memoria* yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd ar Hydref 8fed. Dyddiad wnei di gofio am byth mae'n siwr - rhannu llwyfan hefo Bryn Terfel, Elin Manahan Thomas a Catrin Finch a thithe'n dathlu dy ben blwydd yn ddeunaw! Pob dymuniad da i ti yn dy yrfa canu, cyfansoddi, actio, stydio!

Hanner Marathon, Caerdydd
Wedi'r holl ymarfer, daeth yr awr! Bore Sul, Hydref yr ail - bore digon dymunol i redwyr - aethant yn eu miloedd i bowndio strydoedd ein prifddinas!

Llongyfarchiadau mawr i Mr Wyn Jones, Mr Martin Powell a'r chwiorydd siwper-ffit Gin ac Anna (MacDonald gynt!). Gwych - chi a'r lleill dewr a fentrodd a da iawn chi am godi cymaint o bres at achosion da yn y broses.

Tymor y cariadon!
Ydy wir! Mae rhamant yn yr aer o gwmpas Creigiau ar hyn o bryd! Llongyfarchiadau mawr a phob hapusrwydd i'r canlynol sy' newydd ddyweddïo - Gethin Davies a Jordan Beddoe, David Evans a Holly Powell, Angharad Roberts a Gavin Bray, Robert Abel a Rachel Craddock, Eleri Middleton a Tom Curran!

Llongyfarchion ychwanegol i Eleri M. ar ennill gradd M.Sc. ym maes embrioleg clinigol. Gwych iawn!

Priodas
Ddechrau'r haf priodwyd Alex Beddoe a Simon Bevan. Dymuniadau gorau eich dau!

Mefus Eirwyn Evans
Trist oedd clywed am farwolaeth Mefus Eirwyn Evans ganol fis Medi. Am flynyddoedd lawer roedd Mefus a'i gŵr Eirwyn yn byw ar Cardiff Road - y ddau yn athrawon yng Nghaerdydd cyn ymddeol. Symudodd Mefus i fyw i Rhiwbeina wedi iddi golli ei chymar. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel y Wenallt ac Amlosgfa Thornhill ar Hydref y pedwerydd. Cydymdeimlwn â'r teulu.

Heddwyn Richards
Yn drist iawn bu farw Heddwyn Richards ddechrau mis Hydref eleni. Yn un o drigolion y Creigiau ers nifer o flynyddoedd yr oedd yn gymeriad adnabyddus i lawer a'i ffraethineb yn ddiarhebol.

Fe'i magwyd ym mhentre Maesybont Sir Gaerfyrddin. Treuliodd ei fywyd proffesiynol ym myd addysg, yn gyntaf fel athro Bywydeg yn ysgol Ramadeg Penfro ac wedyn yn ddarlithydd yng Ngholeg Technegol Llandaf. (Fel ei gelwid bryd hynny.) Yna, ym 1971, fe'i penodwyd yn uwch gynghorwr yn swyddfa'r Brifysgol Agored yng Nghymru ac yn y swydd honno y treuliodd weddill ei yrfa.

Y wedd amlycaf i lawer oedd ei allu i ddweud stori a byddai'n tynnu coes yn gyson. Fyddech chi byth yn siwr a oedd o ddifri a'i peidio ac roedd angen bod ar eich gwyliadwriaeth ar Ebrill y cyntaf! Nid syndod ei fod yn gwmniwr bywiog a ffraeth ar bob achlysur.

Ond ynghyd â'r sbort a'r chwerthin roedd yn berson o argyhoeddiadau cadarn. Dywed Dic Jones, yn ei englyn i'r Brifysgol Agored, iddi gael ei sefydlu ' .....- i danio, doniau'r dyn cyffredin'. Dyna, yn sicr oedd gweledigaeth Heddwyn. Roedd yn hynod falch o fedru sicrhau cyhoeddi cwrs 'Y Plentyn Bach' sef fersiwn Gymraeg o 'The Pre-School Child'.

Yr oedd hefyd yn Gristion o argyhoeddiad ond un na welai bod ei gred yn gwrthdaro mewn unrhyw ffordd â datblygiadau gwyddonol. Roedd llyfrau sy'n pontio'r ddau faes o ddiddordeb arbennig. Os oedd llyfr wedi cyrraedd y brig yn ei dyb ef yna roedd yn 'ffantastig'. Cai y gair 'ffantastig' ei ddefnyddio hefyd wrth drafod y darganfyddiadau diweddaraf ym myd gwyddoniaeth.

Yn berson hynod drefnus yr oedd cynnwys ei stydi, yn lyfrau, lluniau a ffeiliau wedi eu lleoli a'u catalogeiddio'n fanwl. Felly hefyd yr ardd – yn wledd o rosynnod â chofnod manwl o enw a lleoliad pob un ar y cyfrifiadur. Fyw i unrhyw chwynyn ddod i'r golwg!

Cyflwynwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w ferch Siân a'r teulu.

Mae'n briodol cloi gyda geiriau yr ieuengaf o'r teulu a oedd yn bresennol yn yr angladd, geiriau a ddarllenwyd yn ystod y gwasanaeth gan y Parch R. Alun Evans wrth gyflwyno ei deyrnged gynnes a gorchestol. Ei orwyr, Ruairi, yn saith oed, bia'r geriau a dyma nhw yn ei lawysgrif ddestlus ei hun:


Roedd Taid yn ardderchog i fi a fy teulu. A roedd ên ddoniol iawn, a glyfar iawn. Roedd ên hapus bob dydd. Roedd e tra hefyd yn dweud storiau i fi. A roedd e pob amser yn choi llyfrau, bisgedi a siocled i fi ffel anrhegs. Rydw in caru Taid llawer.
Ruairi XXX

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis – Rhiannon Price

Llongyfarchiadau
Ganwyd ail fab i Robert Lamb a'i wraig Sim, ar Hydref 2, 2016. Ei enw yw Jac Dylan. Mae ei frawd mawr Thomas wrth ei fodd. Dyma'r pedwerydd ŵyr i Steve ac Eirlys Lamb o Lantrisant. Mae teulu Robert wedi ymgartrefu ym mhentref Dyffryn yn Y Fro. Gweler y llun o'r ddau frawd ar dudalen 3.

Gwellhad buan
Dymunwn wellhad buan i Sian Cadifor sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant
Nos Wener Medi 30, cawsom ein diddanu gan Delwyn Sion yng Nghapel Tabernacl Efail Isaf. Roedd yn noson ddifyr iawn a chawsom wledd o ganu ac adrodd hanesion oedd ynghlwm wrth ganeuon Delwyn. Roedd pawb wedi mwynhau ei hiwmor arbennig wrth gyflwyno'r hanesion a chawsom bleser mawr wrth wrando ar ei ganeuon. Diolch yn fawr Delwyn.

Agor Y Miskin Arms
Bu disgwyl mawr am ail agor Y Miskin Arms ym Meisgyn, dan berchnogaeth Dudley Newberry. Daeth y diwrnod mawr ddydd Llun Hydref 5, 2016 ac mae eisoes yn dŷ bwyta hynod brysur. Mae Dudley yn brif gogydd llawyddiannus iawn ar ein sgrin fach, ond nawr mae ganddo fwyty ei hun sydd yn hynod ddeniadol yn ei foesuthrwydd a'i fwydlenni apelgar iawn. Cychwynnodd diddordeb Dudley mewn coginio, pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, pan gafodd e gyfle i gymryd rhan mewn arlwyo i blant a fynychai gyrsiau'r ysgol yn Nhresaith.
Dymunwn lwyddiant anferthol i Dudley gyda'i fenter newydd.
Gallwch gysylltu gyda'r bwyty drwy ffôn 01443 224346 neue bost dudley@miskinarms.co.uk
gwefan y bwyty www.miskinarms.co.uk
cyfeiriad Heol Hensol, Meisgyn. Pontyclun. CF72 8JQ

Anghydfod yn parhau
Mae'n debyg bod Cyngor RhCT yn ail wampio'r ffiniau fydd yn penderfynnu pa blant fydd yn mynychu dwy ysgol yn yr ardal, sef Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant ac Ysgol Gyfun Y Pant. Mae cynlluniau'r cyngor yn golygu efallai y byddai plant o'r un teulu yn gorfod mynychu dwy ysgol wahanol. Adeiladwyd Ysgol Gymraeg Llantrisant o'r newydd yn 2005 ym Meisgyn, ond mae newid yn y dalgylch yn golygu bydd rhaid i blant newydd, sydd am gael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, deithio i Beddau neu Llanharan.
Hefyd er bod Ysgol Uwchradd Y Pant wedi'i hail agor ar gost o 25 miliwn o bunnoedd, mae'n bosib na fydd disgyblion newydd o'r dalgylch yn cael y cyfle o fynychu'r ysgol yma. Cawn weld beth fydd yn digwydd .

Merched y Wawr
Cangen Tonysguboriau
Dathlwyd diwrnod 'Shwmae' yn ein cyfarfod y mis hwn ac roedd yn dda gweld dysgwyr newydd yn ein plith. Dysgwraig oedd ein siaradwr gwadd hefyd; mae Bernadette Wilson yn aelod o'r gangen ac wedi bod yn dysgu Cymraeg ers 8 mlynedd. Disgrifio a dangos therapi Emmett wnaeth Bernadette. Mae'r dechneg yn ffurf unigryw o therapi corff sy'n cynnwys cymhwyso pwysau bys ysgafn ar bwyntiau penodol o'r corff. Roedd Bethan Vaughan Cartwright o gwmni Panel Cyfryngau Cymru gyda ni hefyd ac fe fanteisiodd hi ar y cyfle o gael profi'r driniaeth gan ddwylo medrus Bernadette. Mis nesaf byddwn yn cwrdd ar Dachwedd 16eg pryd bydd Colin Parry yn siarad am 'Cymorth ar y Copaon a Chartrefi'.

Gohebydd y mis nesaf Awen Mai Evans
Awen.Evans@Wales.gov.uk

Ysgol Creigiau

Llangrannog
Fe dreuliodd disgyblion Blwyddyn 6 wythnos fythgofiadwy yn Llangrannog rai wythnosau nôl. Roedd pob un wedi mwynhau'r antur yn fawr iawn ac wedi elwa o'r holl brofiadau gwych a gawsant. Mae'n ddiogel i ddweud, mai'r cwrs mwd oedd un o'r hoff weithgareddau yn ystod yr wythnos! Prin yr oedd hi'n bosib adnabod wynebau'r disgyblion o dan yr haenau trwchus o fwd!

Casgliadau'r Cynhaeaf
Cawsom wasanaeth Cynhaeaf hyfryd yn yr ysgol dan ofal disgyblion Blwyddyn 2. Daeth holl ddisgyblion yr ysgol â chyfraniadau hael tuag at Fanc Bwyd Caerdydd yn ogystal â'n helusen dewisol eleni sef Ambiwlans Awyr Cymru.

Trawsgwlad yr Urdd
Aeth 80 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 i gystadlu yng nghystadleuaeth Traws Gwlad yr Urdd ar Gaeau Llandaf. Roeddynt yn cystadlu yn erbyn disgyblion o ysgolion eraill ledled Caerdydd a'r Fro. Roedd tua 100 o blant ym mhob cystadleuaeth. Llongyfarchiadau enfawr i bob un am redeg a chynrychioli'r ysgol mor wych.
Fe lwyddodd ein disgyblion i orffen yn y tri cyntaf mewn 12 allan o 48 cystadleuaeth posib - tipyn o gamp yn wir! Bydd yr enillwyr yn cael cyfle i gynrychioli'r ysgol a'r Sir yn y rownd derfynol a gynhelir yn Aberystwyth ym mis Mai.

Pencampwriaethau Trawsgwlad
Aeth 26 o ddisgyblion o Flwyddyn 5 a 6 i gymryd rhan yn rownd gyntaf Pencampwriaethau Trawsgwlad Ysgolion Cynradd Caerdydd a drefnwyd gan Chwaraeon Caerdydd mewn partneriaeth ag Athletau Cymru ar Gaeau Llandaf. Cynhelir dwy gystadleuaeth gychwynnol a fydd yn arwain at rownd derfynol yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd.

'Glitterbugs'
Yn ddiweddar, cafodd pob disgybl y cyfle i ddefnyddio peiriant golchi dwylo arbennig er mwyn sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo'n dda ac i sicrhau ein bod ni, fel ysgol, yn bodloni gofynion menter 'Ysgolion Iach'. Rhoddodd aelodau SNAG (Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol), sgwrs i ddisgyblion pob dosbarth i egluro sut y dylent olchi eu dwylo'n iawn a beth yw'r peryglon posibl os nad ydynt. Rhwbiwyd hylif 'Glitterbug' ar ddwylo'r gwirfoddolwyr. Gosodon nhw eu dwylo o dan y lamp - ac fel pe bai hud a lledrith yn digwydd - gwelsant ôl y germau'n goleuo fyny. Ar ôl golchi eu dwylo, gosodon nhw eu dwylo o dan lamp y peiriant golchi dwylo eto, a'r tro yma roedd yr holl rannau oedd wedi eu golchi'n dda yn dywyll o dan y lamp! Mwynheuodd pob disgybl y profiad yn fawr ac maent erbyn hyn yn deall pwysigrwydd golchi eu dwylo yn dda i ladd yr holl germau. Diolch yn fawr iawn i Cerys a Megan (Blwyddyn 4), Evie, Olivia, Cerys, Erin a Will (Blwyddyn 5) a Siân, Ela a Nia (Blwyddyn 6). Roedd pob un o'r athrawon wedi canmol eu sgiliau cyflwyno ardderchog a'u gallu i gyfathrebu mor hyderus o flaen dosbarth o blant.

Colofn Blasus ac Iachus

PICLS A SIYTNI AR GYFER Y NADOLIG

Wedi i mi gael galwad ffôn gan Meleri, ymchwilydd ar gyfer rhaglen Shân Cothi, roeddwn yn meddwl byddai'n well i mi wneud tipyn o ymchwil ar gyfer fy ymweliad nesaf ar y rhaglen. Picls a siytni oedd y pwnc trafod y tro hwn. Ond doedd dim angen i mi boeni am fod yn fyr o rywbeth i'w ddweud gan fod cyfraniad difyr Mici Plwm i'r sgwrs wedi llenwi rhan fwyaf o'r amser ar yr awyr!

Gall hanes siytni sbeislyd syml ei ddyddio 'nol i amser cyn Crist. Yn tarddu o India, cafodd y dull hwn o gadw bwyd ei fabwysiadu gan y Rhufeiniaid ac wedyn gan ymerodraethau Prydain yn y 18fed ganrif gyda masnachwyr yn cludo bob math o fwydydd egsotig i'r trefedigaethau, Awstralia a Gogledd America.

Gair Hindustani yw 'chutney' ac mae 'na amrywiaeth eang o fathau ohono yn isgyfandir India. Yn draddodiadol mae'n gallu amrywio o fathau o relish a dips, yn bicls ac yn siytnis sy'n cael eu paratoi gyda jiggery (math o siwgr gansen/cane sugar). Olew mwstard ydy'r cadolwyn (preservative), on finegr sy'n cael ei ddefnyddio yn rysetiau'r wlad hon er mwyn iddo gadw trwy'r flwyddyn.

I wneud siytni mae'r ffrwyth/llysiau yn cael eu torri i fyny a'u mudferwi gyda finegr, siwgr a sbeisys hyd nes yn drwchus. Gyda phicls mae'r ffrwyth/llysiau yn gyflawn neu wedi eu torri'n dalpiau i wneud picls clir (gyda halen, siwgr, perlysiau a sbeisys). Mewn picls melys mae'r llysiau yn cael eu coginio'n ysgafn. Piccalilli (Indian Pickle neu Chowchow) yw'r un mwyaf adnabyddus, ceir ei liw o'r tyrmerig sydd yn rhan bwysig o'r ryseit. Gwraig o'r enw Mrs Raffald sy'n rhoi ryseit cyntaf am bicl Indiaidd neu Piccalillo yn 1772 gan ddefnyddio bresych, blodfresych, ciwcymbr, radish, ffa Ffrengig a betys, mae'n debyg byddai'r llysiau/ffrwythau'n fwy egsotic yn cael eu defnyddio yn y dwyrain pell!

Mae rhoi llysiau mewn heli (brine) neu halen cyn eu piclo'n tynnu dŵr allan ohonynt i roi gwell ansawdd i'r picls. Rhaid golchi'r llysiau'n dda wedi iddynt fod yn yr halen.

Mae amrywiaeth eang o rysetiau ar gael – gellir defnyddio gweddillion eich llysiau gardd; 'does dim angen iddynt fod yn berffaith. Byddwch yn arbrofol gyda'r cyfuniadau o lysiau a ffrwythau e.e. Planhigyn wy gyda thamarind (pwlp brown o pod o goeden y teulu pys, a ddefnyddir yn eang fel cyflasyn mewn coginio Asiaidd), sinsir a hadau mwstard
Eirin a lemon
Mango ac afal
Sialóts gyda finegr balsamic
Mwyar duon gyda winwns coch a gwraidd sinsir ffres
Corgwmpenni a thomato gyda hadau mwstard melyn
Pupur coch, tomatos, gwraidd sinsir a tsilis

Mae defnyddio gwahanol sbeisys a ffrwythau sych e.e. llugaeron, detys yn ychwanegu at y blas.

Dyma'r 'rheolau' cyffredinol i'w dilyn wrth wneud siytni a phicls:-
Torrwch y llysiau 'run maint a defnyddiwch finegr sy'n cynnwys 5% asid asetig.

I sbeisio'r finegr eich hunan defnyddiwch amrywiaeth o sbeisys e.e. sinamon, clofs,byrllysg (mace), aeron allspice, grawn pupur, dail bae, tsilis, hadau mwstard neu ffenigl a'i rhoi mewn bag mwslin. Gallwch ei gadw am 1-2 fis cyn ei ddefnyddio, y dull cyflym yw dod a'r finegr a'r sbeisys i'r berw ac yna gadael iddo sefyll am 2-3 awr cyn tynnu'r sbeisys allan.

Mae arllwys y finegr ar y llysiau pan mae nhw'n boeth yn rhoi ansawdd mwy crimp. Gellir defnyddio siwgr brown neu gwyn. Bydd siwgr gwyn yn troi yn frown wrth goginio. Mae ychwanegu siwgr gwyn ar ôl coginio'r llysiau yn gwneud siytni mwy golau ei liw.

Defnyddiwch sosban dur di-staen neu alwminiwm da i osgoi adwaith gydrhwng yr asid a'r metel. Mae angen troi'r cymysgedd yn aml i osgoi llosgi ar y gwaelod. Gallwch ddefnyddio'r 'popty araf' ar gyfer ei baratoi.

Defnyddiwch jariau gwddf llydan sydd wedi'u sterileiddio gan wasgu'r cymysgedd yn dda mewn i'r jariau fel nad oes pocedi aer ynddynt.

Mae finegr yn cyrydu metel felly defnyddiwch gaeadon gwydr neu blastig.
Bydd cadw'r siytni am o leiaf mis mewn lle tywyll, sych ac oeraidd yn datblygu'r blas.

Heblaw am fod yn flasus gyda chigoedd oer, peis a chaws gallwch eu hychwanegu i cyri, cawl neu lobscows. Ychwanegwch iogwrt i siytni i wneud dip ac mae caws hufen yn dda gyda siytni ar dost.

Mae lemonau wedi'u cadw mewn halen wedi ymddangos mewn sawl ryseit yn ddiweddar - ffasiwn bwyd! (er bod ryseit ar gael yn llyfr Claudia Roden yn y 60degau). Blas o Forocco a De Africa sydd yma. Rhaid golchi'r croen yn dda wedi iddo fod yn sefyll yn yr halen am o leiaf mis ac yna torri'r cnawd i ffwrdd cyn ei ddefnyddio. Mae'r croen yn dda mewn tajines sef seigiau Moroccan- cig gyda llysiau a ffrwyth (detys, syltanans, bricyll) a sbeisys fel sinsir, ciwmin, tyrmeric, sinamon a saffron, paprika a chili. Mae'n gwella blas llysiau e.e. tatws wedi'u rhosti mewn olew gyda winwns coch. Gallwch wneud relish ohono gyda mint i weini gyda chig oen, neu roi'r croen yn gyfan mewn cyw iâr cyn ei rostio. Mae'n gyfeiliant da i bysgod e.e. tiwna neu benfras ac yn flasus mewn 'dressings' ar gyfer salad a gyda couscous. Mewn jar bert, mae'r lemonau (a siytni) yn anrheg Nadolig delfrydol!

Dyma ryseit am **Sos Coch Myglyd** blasus:
Cynhesu gradell nes ei bod yn boeth iawn, yna ychwanegu **2kg(4pwys) o domatos** a'u troi yn aml er mwyn llosgi'r croen, yna gadael iddynt oeri. Yn y cyfamser gwneud yr un fath gyda **4 sialot** a **8 clof o arlleg** (yn eu crwyn) cyn eu pilio. Torri'r tomatos yn fras, yna eu coginio gyda'r sialóts a'r garlleg am tua 30 munud. Rhoi'r cyfan trwy gymysgydd trydan neu ddefnyddio cymysgydd ffon yna coginio'r piwrî gyda **250g siwgr brown meddal,300ml finegr gwin coch, 1 llwy fwrdd mwstard Dijon, 1 llwy fwrdd paprica wedi'i fygu a llwy de o halen** gan wneud yn siŵr fod y siwgr wedi toddi cyn dod a'r cyfan i'r berw, yna ei fudferwi am tua 20 munud. Gadewch iddo oeri ychydig cyn ei roi mewn jariau sydd wedi cael eu sterileiddio. (Gallwch ei roi trwy ridyll i gael ansawdd mwy llyfn).

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017
Digwyddiadau nesaf:
Nos Wener, 18 Tachwedd – Noson Bingo yn y Savoy.
Dydd Llun, 12 Rhagfyr am 3pm – Te gyda Siôn Corn yn Neuadd yr Ysgol Gynradd. £5 y plentyn.
Dydd Llun, 2 Ionawr – taith gerdded i'r teulu cyfan i roi cychwyn cadarn i'r flwyddyn newydd. Taith wastad ar hyd llwybr cerdded i dafarn y Longbow ac yn ôl. Byddwn yn cwrdd am 2pm gyferbyn â maes parci Clwb Coed-elai.
Dilynwch ni ar facebook - https://www.facebook.com/pwyllgortonagilfach/.

Llwyddiant ysgubol i'r Cylch Meithrin
Llongyfarchiadau enfawr i Gylch Meithrin Tonyrefail am ennill dwy wobr yn seremoni wobrwyo genedlaethol y Mudiad a gynhaliwyd yn Aberystwyth nos Wener, 21 Hydref. Enillon nhw'r wobr gyntaf am gynhwysiant (yr unig gylch yn Rhondda Cynon Taf i gipio gwobr gyntaf) a hefyd daethon nhw'n drydydd am eu defnydd creadigol o gymeriadau'r Mudiad, Dewin a Doti, i ddenu'r plant i ddysgu'r Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr i bawb sy'n gysylltiedig â'r cylch.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**
Mis Tachwedd 2016:
6 – Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Ddr. John Tudno Williams
13 - Oedfa Ardal
20 – Oedfa dan ofal y Parchedig Glyn Tudwal Jones
27 – Bore: Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys
Pnawn (5:00 p.m.) – "Blasu Bethlehem"
Mis Rhagfyr 2016:
4 – Pnawn (am 5:00 p.m.) – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Sion
11 – Bore – Ymweld a Chartref yr Henoed
Pnawn (am 5:00 p.m.) – Gwasanaeth Naw Llith a Charol
18 – Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul (amser i'w gadarnhau)
25 – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)

Nid oeddwn erioed wedi bod yn Aberfan tan ganol mis Hydref eleni.

Doeddwn i ddim rhywsut yn teimlo fod gennyf hawl i ymyrryd ym mywydau'r gymuned a ddioddefodd mor greulon ar yr 21ain o Hydref 1966.

Gwta ddyddiau cyn dyddiad cofio'r hanner canrif ers y drychineb fe fentrais fynd, a hynny yng nghwmni nifer o gyfeillion o'r ardal hon.

Teimladau cymysg ryfeddol a brofais o fod wedi mynd – er fod 'na bobl eraill o gwmpas yn yr Ardd Goffa ac hefyd yn y fynwent, 'roedd mudandod y genhedlaeth goll yn llenwi'r lle.

Wrth gerdded rhwng y ddau leoliad fedrai rhywun ddim peidio a chil-edrych ar y tai ar y naill ochr i'r stryd a'r llall, gan holi fy hun tybed sawl aelwyd a deimlodd ing colli mab neu ferch, weithiau y ddau, a hwythau yn blant saith, wyth, naw neu ddeg oed?

Tybed a oedd 'na riaint yn dal i sefyll y tu ôl i lenni ambell dy, yn edrych yn hir a disgwylgar i gyfeiriad Ysgol Pantglas am ddychweliad y plentyn a aeth mor dalog i'r gwersi y bore tyngedfennol hwnnw?

Ychydig a feddyliwn ar ddiwrnod y drychineb – minnau bryd hynny yn 14 mlwydd oed - a thrwch pobl fy mhentref genedigol heb amgyffred o fodolaeth y fath le ag Aberfan, y byddwn ymhen blynyddoedd yn cydweithio am gyfnod ag un o'r bechgyn a achubwyd o grafangau'r chwydfa lo yn yr ysgol honno. Loes mawr oedd deall iddo golli ei rieni mewn damwain car flynyddoedd yn ddiweddarach.

Ychydig a feddyliwn yn ogystal y byddwn, yn ystod fy ngyrfa gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol, a gofal tim oedd yn arolygu tipiau glo a oedd bellach yn ddiffaith er sicrhau eu diogelwch, a hynny yn deillio yn uniongyrchol o ddeddfwriaeth a basiwyd yn sgil cyflafan Aberfan.

Bu'r ddeddfwriaeth yn sbardun i raglen Adfer Tir Diffaith Awdurdod Datblygu Cymru yn y saithdegau a'r wythdegau, gan lasu'r cymoedd unwaith yn rhagor wedi'r rheibio a fu.

Cafodd y cofio eleni gryn sylw yn y wasg a'r cyfryngau, peth ohono yn dreiddgar a dadlennol, a da o beth oedd hynny, ac fe gyfansoddwyd "Cantata Memoria", partneriaeth rhwng Karl Jenkins a Mererid Hopwood, i goffau'r digwyddiad yn ogystal.

Fe gofiwyd eleni hefyd am gamp Dic yr Hendre yn ennill cadair Eisteddfod Genedlaethol Aberafan a'r Cylch hanner canrif yn ol gyda'i awdl i'r "Cynhaeaf" – *"... ei wobr bennaf fydd gwybod ei fod wedi ysgrifennu cerdd sy'n gampwaith*" yn ôl un o'r beirniaid, Thomas Parry.

Dim ond un llythyren sy'n gwahanu Aberafan ac Aberfan, ond mae 'na 144 o gyrff yn gwahanu gwaddol y ddau achlysur.

"Bydded wych i'r Goruchaf
Ddiolch dyn yn nherfyn haf"

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfrif trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Merched y Wawr Y Garth

I'n hail gyfarfod o'r tymor daeth Daniel Jenkins-Jones i'n cyflwyno i'w 'gariad cyntaf' - sef byd natur! Yn frodor o Sir Gâr ac wedi treulio ambell flwyddyn yn gweithio ym myd y cyfryngau fel cynhyrchydd yn benna - teimlai yr awydd i ddychwelyd i ble roedd ei wir gariad a phan ddaeth cyfle i weithio i'r RSPB roedd ar ben ei ddigon. Mewn sgwrs ddifyr iawn trwy lun a gair profom frwdfrydedd ac angerdd Daniel at adar mawr a mân fel ei gilydd. Dysgom lawer - wyddoch chi bod y dryw yn pwyso yr yn faint â dau ddarn pump ceiniog! Ac ystod adenydd yr albatross yn rhyfeddol - sef Ann J ac Eleri J yn sefyll ochr yn ochr - breichiau ar led - bysedd yn cyffwrdd yn y canol - dyna i chi ystod adenydd yr albatross! Fe glywsoch am Adar Drycin Manaw - y Manx Shearwater? Wel, mae 50% o boblogaeth y rhywogaeth arbennig yma yn byw yng Nghymru! Ond hanes y Rhostog Gynffonfraith - y black-tailed godwit - oedd ryfedda! Bob blwyddyn mae oddeutu 70,000 ohonynt yn mudo o Alaska i Seland Newydd gan hedfan 7,000 o filltiroedd yn ddi-dor mewn naw diwrnod! Un ffaith i beri gofid - cynhaliodd prifysgol yng ngogledd Lloegr ymchwil i ymwybyddiaeth plant trwy Brydain o fyd natur yn gyffredinol. Daeth y canlyniadau yn dipyn o sioc - gyda phlant ardal Llundain ar y brig - 24% - tra roedd plant Cymru ar y gwaelod - 13%! Rhyfedd o fyd! Noson hynod ddifyr! Diolch yn fawr iawn Daniel am dy gwmni a'th wybodaeth werthfawr!

Y mis nesa - **Bowlio Deg** yn **Nantgarw**! **Nos Fercher**, **Tachwedd y 9fed**! Enwau i **Eifiona** - os gwelwch yn dda!

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Carol a Huw Llywelyn Davies a Rhodri a'r teulu wedi i Carol golli ei mam. Bu farw Mrs. Megan Morris, neu "Mam Llanelli" i'w theulu yn 94 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys San Mihangel a'r Holl Angylion, Dafen, ddydd Llun Hydref 24.

Copaon Cymru
Ym mis Hydref cyhoeddwyd llyfr newydd "Copaon Cymru" gan Wasg Carreg Gwalch. Mae'n cynnwys 48 o deithiau cerdded ym mhob cwr o'r wlad yn ogystal â mapiau, lluniau trawiadol a gwybodaeth ddiddorol. Aelodau Clwb Mynydda Cymru oedd yn gyfrifol am y cynnwys a Dewi Hughes ysgrifennodd y bennod "Pen y Fan." (Efallai i rai ohonoch ei weld yn cael ei gyfweld ar raglen Heno adeg y lansiad.) Gallwn fwynhau darllen y llyfr, ac edrych ar y lluniau, a'r nod wrth gwrs yw ein hannog i fynd i gerdded a mwynhau mynyddoedd Cymru. Dyna anrheg Nadolig delfrydol!

Symud Tŷ
Dymunwn yn dda i Ros Evans wrth iddi symud tŷ. Yn ffodus ni fyddwn yn colli ei chwmni gan mai i'r Creigiau y mae wedi mynd. Dymunwn yn dda iddi wrth gymeryd y cam cynta tuag at ei chartref newydd.

Cylch Cadwgan
Cyflwyno detholiad o'i barddoniaeth wnaeth Karen Owen, y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Hydref Cylch Cadwgan dan nawdd Clwb y Dwrlyn. Rhannodd ychydig sylwadau i gychwyn ynghylch rôl barddoniaeth. Iddi hi nid adrodd pethau neis-neis oedd y nod ond yn hytrach cyffwrdd, ysgwyd a herio'r darllenydd . Yna aeth ati i ddarllen rhai o'i cherddi yn amrywio o'r ysgafn i'r lleddf gan roi gair o eglurhad ynghylch yr hyn a oedd wedi sbarduno pob un. Gwefreiddiwyd y gynulleidfa, nid yn unig gan y cerddi eu hun ond hefyd ei sgwrsio difyr, yn ddigri a difri, wrth ymhelaethu gan roi proc o dro I dro i'r gynulleidfa ymateb.

Yn ddios, cafwyd noson hynod lwyddiannus â digon i gnoi cil. Diolch i Eifon Glyn am drefnu ac i Rhodri Gwynn am lywio'r noson mor ddeheuig heb adael i neb anghofio rhagoriaethau Dyffryn Nantlle!

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr
i gyrraedd erbyn
24 Tachwedd 2016

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Bowlio Deg
yn Nantgarw
Nos Fercher
Tachwedd y 9fed
Dewch i gefnogi
Ffoniwch am wybodaeth bellach
Manylion: 029 20890770

CLWB Y DWRLYN

Standyp
Dilwyn Morgan

Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch
8yh nos Iau
10 Tachwedd

Cinio Nadolig
Yn DeCourcey's Pentyrch
7yh Nos Fercher
14 Rhagfyr
Manylion: 029 20890040

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.
Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

CYLCH CADWGAN

GRUFFUDD OWEN
yn siarad ar y testun:
'Hel llus yn y glaw'
(Rhestr Fer
Llyfr y Flwyddyn 2016)

Nos Wener 25 Tachwedd
2016 am 8.00yh
yn Y Ganolfan, Tabernacl,
Efail Isaf
Cydnabyddir cefnogaeth
Llenyddiaeth Cymru

Dyfodol i'r Iaith

Nos Lun, 14eg Tachwedd am 7.30yh, cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus wedi'i drefnu gan Dyfodol i'r Iaith, yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. Thema'r cyfarfod fydd 'Llywodraeth Cymru a'r Gymraeg: rhaid dal ati i bwyso' a'r siaradwyr fydd Cynog Dafis a Heini Gruffudd gyda Elinor Jones (Llywydd Dyfodol i'r Iaith) yn cadeirio.

Mae'r cyfarfod yma'n rhan o raglen Dyfodol i'r Iaith i godi ymwybyddaeth ac annog trafodaeth a chael clywed mwy am faniffesto'r mudiad, 'Creu Dyfodol i'r Gymraeg' a bydd cyfle i holi a thrafod.

Dywedodd Heini Gruffudd, Cadeirydd Dyfodol: "Edrychwn ymlaen at gael rhannu ein neges gyda gwahanol gymunedau ar draws y wlad. Bydd yn gyfle arbennig i gwrdd â chyfeillion yr iaith, i holi eu barn a chael rhannu ein gobeithion ninnau ar gyfer y dyfodol."
Croeso cynnes i bawb

MERCHED Y WAWR
Cangen Tonysguboriau

Colin Parry "Cymorth ar y Copaon a Chartrefi"
Tachwedd 16eg

Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

Darlith Edward Lhuyd

Darlith flynyddol a gynhelir ar y cyd rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chymdeithas Ddysgedig Cymru er mwyn dathlu ysgolheictod cyfrwng Cymraeg.

Yr Athro E. Wyn James yw darlithydd eleni, a'i bwnc fydd '"Mynnwch ddysg yn eich iaith": Maniffesto William Salesbury'.

Cynhelir y ddarlith nos Fawrth, 15 Tachwedd, yn Siambr y Cyngor, Prif Adeilad Prifysgol Caerdydd.

Mae mynediad am ddim ond gofynnir ichi sicrhau sedd drwy fynd i bit.ly/DarlithEL neu ffonio 029 20109020.

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cinio Nadolig
Miskin Arms, Meisgyn

Nos Wener, 9 Rhagfyr, 7.00yh
Manylion: 01443 205937

Taith Cerddorfa Ieuenctid y Sir i'r Eidal.

Gan Gwyn Robins

Llun tudalen 4

Eleni yr oeddwn i'n ddigon ffodus i gael teithio i'r Eidal gyda cherddorfa Ieuenctid Sir Caerdydd a'r fro. Fe aethom i ardal Verona yng Ngogledd yr Eidal ac fe deithiom o gwmpas yr ardal yn ymweld â gwahanol drefi a chynnal cyngherddau. Roeddem yn aros mewn gwesty hyfryd pedair seren a phwll nofio bendigedig.

Ar y diwrnod cyntaf teithiom i fyny i'r mynyddoedd i dref o'r enw Asiago. Yno wedi, prynhawn o grwydro gwnaethom gynnal cyngerdd yng Nghadeirlan Sant Mathew. Llwyddom ni i lenwi'r holl gadeirlan a thros 350 o bobl! Er mwyn creu digon o le i bawb roedd rhaid rhoi cadeiriau ychwanegol ar hyd ymylon y Gadeirlan. Chwaraeom ni ddarnau gan Verdi sef Overture La Forza Del Destino, Concerto I'r Ffliwt gan Reinecke a Symffoni 1af Sibelius.

Y diwrnod canlynol aethom ar drip diwrnod i Verona lle cawsom amser i grwydro o gwmpas y dref hardd yma. Yno fe welsom falconi Juliet a'r wal gariadon enwog ac yna'r noson honno roeddem yn ddigon lwcus i gael cyfle i weld perfformiad awyr agored o 'Il Travatore' gan Puccini yn yr Arena di Verona sydd yn enwog am fod yn un o leoliadau gorau'r byd i wylio opera. Profiad gwych a chofiadwy.

Wedi brecwast y trydydd diwrnod, fe adawon ni i weld tref Mantova ac yno cawsom weld y Teatro Bibiena a'r Basilica di Sant'Andrea. Roedd yn dref brydferth a hynafol iawn. Ar ôl gorffen crwydro fe aethom ymlaen â'n taith i Asola. Yma roedd ein cyngerdd awyr agored cyntaf a gynhaliwyd ym Mhiazza XX Settembre fel rhan o'r 'Musica Classica Mantovana Festival.' Roedd gwneud cyngerdd awyr agored yn brofiad newydd i lawer ohonom a chafodd y gwres effaith mawr ar rai! Bu bron i Mr Eric Phillips ein harweinydd lewygu.

Y bore wedyn fe deithion ni i Bardolino, sef tref fach brydferth tu hwnt ar lan Llyn Garda. Gwarion ni'r bore yma yn crwydro ac yn ymlacio wrth ymyl y llyn ac wedi i bawb gael cinio a chwrdd nôl wrth y bws roedd yn amser i ni adael i fynd i osod i fyny ar gyfer ein cyngerdd olaf. Y lleoliad ar gyfer y gyngerdd olaf oedd 'Villa del Torre' yn Fumane yng nghanol gwinllannoedd enwog Valpolicella. Fila Rhufeinig crand iawn oedd y lle yma, ynghanol gwinllan teulu'r Allegrini ac roedd yn lleoliad gwych ac awyrgylch bendigedig i gynnal cyngerdd olaf ein taith.

Ar ein diwrnod olaf fe aethom ni gyd ar daith i Venice ar gwch. Yma cawsom ddiwrnod cyfan i grwydro ac i weld y golygfeydd a'r adeiladau enwog i gyd. Cefais lawer o hwyl ar y gondola yn canu 'Dim ond un corneto'! ac yna cael cyfle i fynd i mewn i'r Basilica San Marco a sefyll ar bont Rialto i enwi ond cwpl o fannau. Profiad bythgofiadwy yn wir.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod cyntaf (Medi 26) ein tymor cawsom gwmni Dr Aled Williams, Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd Glantaf, Caerdydd. Derbyniodd ei addysg gynradd yn Abertawe, Yr Wyddgrug a Merthyr cyn mynd yn ddisgybl yn Ysgol Glantaf. Enillodd radd mewn ffiseg yn Aberystwyth a doethuriaeth yng Nghaerdydd. Wedi cyfnod mewn diwydiant mentrodd ar yrfa mewn addysg yn athro ffiseg gan gyrraedd ei swydd bresennol.

Yn ei anerchiad soniodd am ei brofiadau wrth dreulio pedwar diwrnod yn CERN, 'cartref' yr LHC gyda grwp o athrawon ffiseg o Gymru. Daeth y trefniant hyn i fod trwy weledigaeth Dr Lyn Evans, y gwyddonydd disglair o Gwmbach, Aberdâr, 'tad' yr LHC; ef fu'n gyfrifol am sicrhau llwyddiant yr holl drefniadau i greu'r peiriant rhyfeddol hwn a daniwyd yn 2008. Cawsom luniau a data trawiadol i'n goleuo ar anferthedd, daearyddol a pheirianyddol, yr amrywiol beiriannau sy'n cynnwys CERN; y cyfan i holi'n ddyfnach i ddirgelion perfeddion atomig mater.

Un ddamwain ddifrifol a fu dros y cyfnod pan 'saethwyd' Anatoli Bugorski gan belydryn, a ddilynodd lwybr trwy ei gorff a'i ben. Yn groes i bob disgwyl mae'n dal yn fyw ac yn iach. Arweiniodd y ddamwain at astudiaethau trin canser.

Nos Lun, 17eg o Hydref 2016 cawsom ddarlith gofiadwy ar 'Ailfapio Tywodfaen Coch yn Ne Cymru' gan Dr John H. Davies ('John the Rocks' i rai ym Mrycheiniog). Cafodd ei eni yn Lerpwl cyn symud i Gaerdydd a mynd i Ysgol Gynradd Ton yr Ywen ac Ysgol Uwchradd Fodern Allensbank. Ymlaen wedyn i Goleg Llandaf i ddilyn cyrsiau lefel-O a lefel-A. Oddiyno i Goleg Chelsea ym Mhrifysgol Llundain i ddilyn ei ddileit mewn daeareg a daniwyd gan ddarlithoedd Emlyn Evans yn yr Amgueddfa yng Nghaerdydd. Enillodd ddoethuriaeth am ymchwil ar Gerrig Gogledd Brycheiniog. Gweithiodd fel daearegydd i Gomisiwn Cefn Gwlad Cymru – swydd oedd wrth ei fodd ar hyd ei yrfa.

Dechreuodd y ddarlith trwy drafod rhai o'r termau angenrheidiol, er enghraifft, mae Hen Dywodfaen Coch yn cyfeirio at garreg waddodol (sedimentary) o'r cyfnod Defonaidd. Mae i'w gael ar draws Prydain, Iwerddon, Gogledd America, a chyn belled i'r gogledd â'r Ynys Las ac Ynysoedd Svalbard. Wrth basio, nododd John gysylltiad Cymreig y termau daearegol Silwraidd a Cambriaidd ac fel y gwnaethpwyd llawer o'r gwaith cynnar ar ddaeareg yn Abertawe yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Esboniodd fod ein gwybodaeth am yr haenau cerrig o dan dir Cymru yn ddifrifol anghyflawn a bod angen mwy o waith mapio i ddeall pa gerrig sy'n torri i'r wyneb. Yna aeth â ni ar wibdaith ddaearegol o amglych Cymru gan ddangos lluniau o Dŷ Ddewi, Mynydd Epynt, y Mynydd Du, Allt Cunedda, Pont Senni a Llanisien cyn mynd draw i Swydd Henffordd ac ardal Bryste. Dangosodd luniau trawiadaol o'r holl lefydd gan adrodd ambell stori am y drafferth gafodd yn tynnu'r lluniau.

Pwysleisiodd bwysigrwydd enwau Cymraeg i ddaearegwyr, megis Creigiau, Talgarreg a Maenclochog yn awgrymu bod haen o gerrig wedi brigo ac felly o ddiddordeb mawr. Nid yw'r wybodaeth hon i'w chael o'r enwau Saesneg. Roedd brwdfrydedd John yn heintus; anogodd y gynulleidfa fynd am dro i rai o'r llefydd y bu'n sôn amdanynt a dod i adnabod daeareg Cymru yn well.

Rhys Morris

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr

Bydd y gangen yn cwrdd nos Iau, Tachwedd 10 fed am 7.30p.m. yn Festri Capel Sardis pan ddaw Dr Rhodri Evans i drafod 'Cyfrifiaduron Harvard' - cyfraniad merched at seryddiaeth.

Fe fydd tîm o'r Gangen yn cystadlu unwaith eto yng Nghwis Cenedlaethol y Mudiad mis yma. Pob lwc! Roedd tîm llynedd mor agos at ennill yn genedlaethol !

Noson Nadoligaidd sy'n digwydd nos Iau, Rhagfyr 8fed

Clwb Llyfrau

Cyfrolau buddugol Eisteddfod eleni sy dan sylw mis yma sef ' Ymbelydredd' gan Guto Dafydd a 'Cai' gan Eurig Salisbury Byddwn yn cwrdd nos Iau, Tachwedd 20fed am 8.00p.m. yng Nghlwb y Bont.

Ym mis Rhagfyr byddwn yn trafod gwaith gan Owen Shears sef 'I saw a man' . Dewch i Glwb y Bont nos Iau, Rhagfyr 17eg

Clwb y Bont

Braf oedd croesawu'r Arglwydd Dafydd Wigley i'r Clwb ddiwedd Hydref. Sgwn i ai dyma'r unig Arglwydd sydd wedi ymweld â'r Clwb?

Digwyddiad mawr y mis yw'r noson yng nghwmni Osian Roberts, Is-reolwr tîm pêl-droed Cymru . Dewch draw i'r Clwb nos Wener Tachwedd 18fed am 7.30p.m. pan fydd Gareth Blainey yn ei holi. Gobeithio caiff aelodau o 'r gynulleidfa gyfle i ofyn ambell gwestiwn.

Os oes newyddion gennych am ein hardal ni cysylltwch â Jayne.
j.rees2012@btinternet.com

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Llwyddiant ysgubol High School Musical

Ym mis Hydref cawsom ni gyfle i berfformio'r sioe gerdd High School Musical gyda'r ysgol. Mae hi wedi bod yn daith hir, ond mae wedi bod yn wych! Perfformion ni yn Theatr y Savoy yn Nhonyrefail ar y 18fed, 19eg a'r 20fed o Hydref. Gweithion ni'n galed iawn ar y sioe ac roedd e werth y gwaith yn y diwedd gan fod y profiad wedi bod yn un wefreiddiol. Diolch yn fawr i bawb a helpodd ni gyda'r sioe. Gan Efan Fairclough a Gruff Roberts Blwyddyn 9.

Diwrnod i'r Brenin/Brenhines!

Llongyfarchiadau i Niamh Wedlake, Blwyddyn 10 sydd wedi ennill gwobr 'Radio 1 Teen Award'. Enwebwyd Niamh gan ei mam am iddi sefydlu tudalen ar y we i gynorthwyo pobl ifanc yn eu harddegau sy'n dioddef o salwch difrifol neu broblemau iechyd meddwl. Pwrpas y dudalen yw sicrhau bod gan y bobl ifanc arbennig yma rhywle i rannu eu storiau a'u gofidiau gyda phobl eraill sydd yn deall ac efallai sy'n gallu helpu. Gallwch wrando ar Niamh yn siarad ar raglen Clara Amfo ar BBC Radio iPlayer. Dyma oedd gan Niamh i ddweud:

Cefais ddiwrnod bythgofiadwy ddydd Mawrth y deunawfed o Hydref pan gefais i'r cyfle i adrodd fy hanes personol yn fyw ar Radio 1. Cyhoeddwyd fy mod yn un o enillwyr gwobr 'Radio 1 – Teen Hero Award'. Roedd yn anhygoel cael cwrdd â fy hoff gyflwynwyr ar Radio 1 ac i ymweld â'r stiwdio.

Ar ôl fy nghyfweliad cefais i'r cyfle i ymweld â Phalas Kensington a chwrdd â Dug a Duges Caergrawnt. Roeddent yn bobl gyfeillgar iawn ac fe ddangoson nhw ddiddordeb mawr yn fy hanes i. Hawdd iawn dweud mai dyma'r diwrnod mwyaf arbennig yn fy mywyd ac fe gofiai am byth.

Llwyddiant Pêl-droed

Llongyfarchiadau i Jack Karadogan, Blwyddyn 8 ar gael ei ddewis i chwarae dros dîm Rhanbarthol De Cymru. Mae'n gyffrous iawn ar gyfer yr ymarferion a'r gemau yn ystod y misoedd nesaf.

Mae timoedd pêl-droed merched yr ysgol wedi bod yn brysur yn ddiweddar a llwyddodd tîm merched Blwyddyn 7 ac 8 i

guro Ysgol Y Pant 6-0 ac Ysgol Cardinal Newman 7-2. Gwnaeth merched blynyddoedd 7 i 11 chwarae yn erbyn Ysgol Rhymni, Ysgol Cardinal Newman ac Ysgol Cwm Rhymni mewn cyfres o gemau 7 bob ochr a gwnaethant lwyddo i ennill 5 gêm a cholli un. Mae'r merched yn datblygu eu sgiliau yn wythnosol a hoffai Miss Morgan ddiolch iddynt am fod yn ddibynadwy a gweithgar.

Mwy o lwyddiant i Rhys Britton

Mae Rhys Britton wedi cael blwyddyn hynod o lwyddiannus ar ei feic eleni! Hyd yn hyn mae wedi llwyddo i ennill Pencampwriaeth Treialon Amser Cymru; Pencampwriaeth Iau Madison Ewrop a medal efydd ym Mhencampwriaeth Trac Ieuenctid y Byd. Mae hefyd wedi bod yn rhan o dîm Gwledydd Prydain yn y ras tîm i 4 gan greu record Brydeinig newydd yn y broses. Enillodd ddwy fedal aur, un fedal arian a dwy efydd ym Mhencampwriaeth Trac Prydain ac mae wedi llwyddo i gadw ei le ar sgwad datblygu seiclo pobl ifanc Prydain. Mae hefyd ar restr fer seiclwr ifanc Cymru'r flwyddyn.

Gweithdy Bioamrywiaeth

Ar yr wythfed ar hugain o Fedi daeth Dr Alwenna Morgan o Brifysgol Abertawe i gynnal gweithdy Bioamrywiaeth gyda disgyblion blwyddyn 13 sy'n astudio Bioleg a Chemeg. Daeth disgyblion Ysgol Gyfun Rhydywaun ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i ymuno hefyd. Cafodd y disgyblion gyfle i echdynnu DNA a darganfod eu genoteip personol. Diolch yn fawr i Dr Morgan, Prifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am y cyfle.



Seremoni Llwyddiant Cadarnhaol

Enillodd Daniel Townley Keogh wobr Disgybl y Flwyddyn, Blwyddyn 11, Ysgol Gyfun Garth Olwg ym mis Awst. Gwobrwywyd Daniel mewn seremoni a gynhaliwyd gan Rondda Cynon Taf yn Llantrisant i ddathlu Llwyddiannau Cadarnhaol ieuenctid y sir.

Yn ôl arweinydd cynnydd a lles y flwyddyn, Ms Eleri Richards, roedd Daniel yn llawn haeddu'r wobr.

"Bu'n ddisgybl gweithgar a chydwybodol ym mhob agwedd o waith a bywyd yn yr ysgol.

Roedd yn anelu'n uchel gan ddangos

penderfyniad a dyfalbarhad yn ei ymdrechion bob amser. Bu'n gyson gadarnhaol ei agwedd drwy'r flwyddyn gan ymateb i bob her gyda brwdfrydedd. Dyma ddisgybl wnaeth gyfraniad cadarnhaol at fywyd yr ysgol drwy ei ymdrechion academaidd a'i ymroddiad allgyrsiol. Mae Daniel yn ddisgybl aeddfed a chwrtais - pob llwyddiant iddo yn y dyfodol!"

Ar ôl canlyniadau ardderchog TGAU, mae Daniel wedi dychwelyd i'r chweched yng Ngarth Olwg i astudio Cemeg, Hanes, Mathemateg a Bagloriaeth Cymru.

Hanner Marathon

Llongyfarchiadau i staff a disgyblion Garth Olwg a fu'n rhedeg Hanner Marathon Caerdydd ar ddechrau Hydref i godi arian tuag at NMO. Llwyddodd pawb i orffen y ras mewn amseroedd teilwng iawn a da iawn i Jac Smith o'r 6ed am orffen cyflymaf i dîm Garth Olwg.

Cystadleuaeth Poster Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Mae'r Adran Gelf wedi bod yn gweithio ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf i gynllunio posteri i osod o gwmpas yr ysbytai i atal pobl rhag ysmygu. Dechreuodd Flwyddyn 7 ar y broses llynedd o gynllunio'r posteri trwy wneud ymchwil ar y we a thrwy wrando ar y Bwrdd Iechyd mewn Gwasanaeth. Yn ystod yr haf trefnodd y Bwrdd Iechyd ddiwrnod i ddod at ei gilydd i feirniadu'r gwaith. Canmolwyd y disgyblion am eu syniadau gwreiddiol a'u negeseuon pwysig wrth greu'r posteri Atal Ysmygu. Dewiswyd 3 enillydd. Ddydd Mawrth 18fed o Hydref daeth Mrs Debbie Owen o Fwrdd Iechyd Cwm Taf a Mr Gareth Davies, sydd erbyn hyn wedi ymddeol i gynnal gwasanaeth i gyflwyno gwobrau i'r ennillwyr.

Yn gyntaf roedd Zoe Gable ac yn gydradd ail daeth Georgia Maisey a Carys Murphy. Bydd y posteri'n cael eu trosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd yn fuan ac edrychwn ymlaen at y lansiad swyddogol tua diwedd y flwyddyn hon neu yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Taith yr Adran Gelf a Ffotograffiaeth i Lerpwl
Ar ddechrau mis Hydref, aethom gyda'r Adran Gelf i Lerpwl am daith dros nos er mwyn ymweld â'r celf amrywiol yna, a'r traeth. Wedi cyrraedd Lerpwl, aeth disgyblion 6ed Celf a Ffotograffiaeth am fwyd yng nghanol Lerpwl i fwyty Nandos, lle mwynheuon fwyd sbeislyd a blasus iawn! Wedyn, bore dydd Gwener, gwnaethom godi'n gynnar er mwyn fforio'r porthladd, lle cawsom lawer o ysbrydoliaeth a lluniau ym





Mhorthladd Albert o'r adeiladau hanesyddol, y dŵr a'r tirnodau. Aethom i oriel Tate Lerpwl, sef cartref Casgliad Cenedlaethol Celf Fodern a Chyfoes y gogledd. Yna, gwelon waith dirdynnol Tracey Emin a darnau dirmyg William Blake, sydd ar yr arwyneb yn ymddangos yn waith hollol wrthwynebol, ond maent mewn gwirionedd yn rhannu nifer o'r un themâu, er enghraifft geni, marwolaeth ac ysbrydol. Hefyd, gwelon arddangosfa o'r enw 'Constellations', sef casgliad o gelf wedi dewis gan artist Glenn Ligon, sydd yn ehangu ar rai o ddiddordebau artistig Ligon, fel hunaniaeth, awdurdod, hil, rhyw a rhywioldeb. Yn olaf gwelom ddarn chwilfrydig a beiddgar gan Paul McCarthy. Roedd ei ffilm fer yn archwilio ag anhawster ym mywydau artistiaid, sydd yn rhywbeth roedd pawb yn y chweched yn gallu cydymdeimlo efo'n gryf! Ar ôl ymweld â'r Tate, aethom i draeth Crosby a oedd wedi lleoli yng ngogledd Lerpwl. Gwelon gerflunwaith haearn Anthony Gormley o ffigyrau gwirfaint sydd wedi lledaeni ar draws y 3 cilomedr o draeth, ac yn ymestyn bron cilomedr i'r môr. Mae'r cerflunwaith bron yn swynol, a gadawodd gwaith Gormley argraff gref iawn ar ein cof cyn gadael. Gan Nyasha Thomas Blwyddyn 12.

Cystadleuaeth Ewropeaidd CIKA

Bu cystadleuaeth Ewropeaidd CIKA yn Nulyn ar yr 8fed o Hydref ac roedd hi'n braf gweld Ysgol Gyfun Garth Olwg yn cynrychioli Cymru ac yn perfformio'n eithriadol o dda. Bu Evani Evans a Megan Bowen o flwyddyn 7 yn brwydro yn rownd gynderfynol categori merched 10 i 12 oed a llwyddodd Evani i ennill medal efydd ac aeth Megan ymlaen i ennill y fedal aur a hi yw bellach y pencampwr presennol. Yn ogystal â hyn daeth Aeryn Pywell, Blwyddyn 9 yn ail a thrydydd fel rhan o dîm KATA Cymru a llwyddodd Kate Jones Blwyddyn 11 i ennill y

fedal efydd yn unigol ac ennill arian fel rhan o dîm. Gwnaeth Owen Davies Blwyddyn 11 hefyd lwyddo i ennill medal efydd yn unigol. Mae'r ysgol yn hynod falch o gael disgyblion sydd yn gweithio'n galed ac yn sicr mae'r hyfforddi wedi talu ar ei ganfed ac maent yn glod i'r clwb.

Prif Swyddogion
Llongyfarchiadau i'r Prif Swyddogion newydd: Branwen Roberts, Daniel Thomas, Niamh Howells a Jac Smith.

Cwis Cyfeillion Garth Olwg
Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi cwis Cyfeillion Garth Olwg. Roedd yn llwyddiant ysgubol ac yn noson hwyliog iawn. Y tîm buddugol oedd Brenin Siôr a oedd yn cynnwys yr Adran Gymraeg a'r Prifathro.

Ymweliad Llŷr Titus
Roedd disgyblion blwyddyn wyth wedi mwynhau ymweliad Llŷr Titus â'r ysgol. Cafodd y disgyblion gyfle i wrando ar Llŷr yn darllen o'i nofel Gwalia, nofel si-fi a enillodd wobr Tir Na Nog eleni. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn trafod eu hoff nofelau a beth sy'n gwneud nofel dda. Cafwyd cyfle hefyd i greu plot ar gyfer nofel ddosbarth – stori anturus! Diolch am yr



Ysgol Llanhari (Parhad o dudalen 19)

Prysurdeb y Bac
Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 11 wedi bod yn cwblhau eu gwaith cymunedol o gwmpas yr ysgol yn ystod y tymor. Diolch byth inni gael Haf bach Mihangel! Bu'r bechgyn wrthi yn creu trac beiciau ym mhen draw'r cae a'r merched wedi bod wrthi yn paratoi gwely blodau newydd wrth fynedfa'r adran gynradd.

Diwrnod Trosglwyddo Cyntaf
Mae'r flwyddyn wedi hedfan! Cyn hanner tymor cychwynwyd ar y gyntaf yn y gyfres o ymweliadau gan ddisgyblion blwyddyn 6 ein clwstwr cynradd am eleni. Mwynhaodd y disgyblion y cyfle i berfformio ac i greu yn ystod y dydd ac edrychwn ymlaen at eu croesawu eto tymor nesaf.

Ysgol Pont Sion Norton

Lluniau tudalen 18

Ymddeol
Pob dymuniad da i Mair wrth iddi ymddeol ar ôl bod yn fenyw cinio am 20 mlynedd ym Mhont-Sion-Norton. Bydd pawb yn gweld ei heisiau yn fawr. Gobeithio y bydd yn gwneud yn fawr o'i hamser rhydd!

Shoctober
Bu plant yr Adran Iau yn dysgu am CPR fel rhan o ymgyrch y Gwasanaeth Ambiwlans. Bu'n agoriad llygaid a dysgodd y plant sut y gallant achub bywyd.

Pen-blwydd
Dathlodd yr ysgol ei phen-blwydd yn 65 oed yn ystod mis Hydref. Bu'r plant yn dathlu trwy greu cardiau a chael hwyl gyda Martyn Geraint, cyn-ddisgybl yr ysgol.

Presenoldeb
Daeth y Super Attender i ymweld â'r ysgol yn ddiweddar, er mwyn atgoffa pawb o bwysigrwydd dod i'r ysgol pob dydd. Bu pawb, yn cynnwys Mr Evans, yn cael hwyl yn dawnsio!!

Bore Coffi
Diolch i flwyddyn 6 am drefnu bore coffi i godi arian ar gyfer MacMillan unwaith eto eleni. Cafwyd amser da wrth fwynhau cacen, coffi a chlonc!

Sioe High School Musical
Aeth blwyddyn 6 i Donyrefail i weld sioe Ysgol Gyfun Garth Olwg o High School Musical. Roedd pawb wedi cael amser gwych ac eisiau ymuno yn y canu!

Urdd 2016
Er mwyn hysbysebu a chyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2016 ym Mhenybont, Taf ac Elai, bu'r cor yn gorymdeithio ac yn canu ym Mhenybont, gydag ysgolion eraill yr ardal. Diolch i bawb am gefnogi a hyfforddi ac i'r Urdd am drefnu.

Ffrainc
Teithiodd Miss Stephens i Anglet, ger Bayonne, De Ffrainc i ymweld â'n hysgol gyswllt. Arsylwodd ar wersi a theithiodd o gwmpas yr ardal cyn ymweld â Bordeaux ar y ffordd adre!

Ffrindiau PSN
Bwriedir bwrw 'mlaen cyn gynted a phosibl gyda gwella ansawdd iard CA2, efallai mor gynnar a'r gwyliau Nadolig! Diolch i Ffrindiau PSN am drefnu.

Trydar
Mae cyfrif Trydar/Twitter yr ysgol nawr yn fyw: @PsnYsgol

Y Cynhaeaf
Diolch i'r Parchedig Aled Edwards am ddod i'r ysgol i arwain ein gwasanaeth Cynhaeaf. Casglwyd rhoddion tuag at y Banc Bwyd ym Mhontypridd. Diolch i bawb am gyfrannu.

Rala Rwdins
Bu dosbarth yr Albion yn brysur yn mesur. Collodd Rala Rwdins ei ffon hud a bu'r plant yn garedig iawn yn chwilio am ffon hud newydd iddi ac yn eu mesur er mwyn darganfod y ffon hud gywir.

DIWRNOD SIWMPER NADOLIG
Achub y Plant

O Ddifri' wrth Ddwli y 'Dolig hwn

Eleni, cynhelir Diwrnod Siwmper Nadolig Achub y Plant **ddydd Gwener, 16eg o Ragfyr.**

Bydd y dwli yn digwydd ledled Cymru wrth i gefnogwyr mewn ysgolion, swyddfeydd a chartrefi adael eu gwisg arferol yn y cwpwrdd, a gwisgo rhywbeth dwl, Nadoligaidd er budd Achub y Plant.

Rydym yn annog pobl i addurno eu siwmperi yn y dull gwirionaf bosib - ewch amdani!

Ond mae ochr ddifrifol i'r holl ddwli hefyd. Drwy roi siwmper wirion ymlaen a chyfrannu £2 tuag at waith Achub y Plant (£1 os ydych mewn ysgol) bydd yr holl arian a gesglir yn mynd tuag at helpu plant mwyaf bregus y byd; boed hynny mewn gwersyll i ffoaduriaid neu ardaloedd rhyfelgar, yn dioddef o newyn neu drychineb naturiol, neu'n byw mewn tlodi yma yng Nghymru. Drwy wisgo siwmper wirion byddwch yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau difrifol tu hwnt.

Pecyn Codi arian Cymraeg ar gael i ysgolion a'r cyhoedd

Gellir cofrestru ar **www.christmasjumperday.org**, ac unwaith i chi wneud hynny gellir dewis fersiwn Gymraeg o'r pecyn codi arian i'w lawrlwytho. Mae'r pecyn yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol a dwl i sicrhau y bydd eich **Diwrnod Siwmper Nadolig** yn llwyddiant.

Ymysg eraill, bydd siopau **WH Smith** yn cefnogi Diwrnod Siwmper Nadolig Achub y Plant eleni drwy greu dau dedi bêr arbennig o'r enw Benji a Bruno. Gwerthir y tedis mewn siopau WH Smith ledled Cymru â'r DU am £4.99, gyda £1 o bob gwerthiant yn mynd tuag at yr elusen.

Rydym hefyd yn partneru gyda **Fisher-Price** i newid y stori ar gyfer plant tlotaf y DU. Rhwng yr 2il o Dachwedd a'r 24ain o Ragfyr 2016, bydd £1 o werthiant 16 o deganau amrywiol o'u cyfres *Laugh & Learn* sy'n cael eu gwerthu drwy Argos arlein yn mynd tuag at gefnogi ein rhaglen grantiau yn y DU - Bwyta, Cysgu, Dysgu, Chwarae.

Os am sgwrs yn y Gymraeg am Ddiwrnod Siwmper Nadolig neu waith Achub y Plant yn gyffredinol, cysylltwch â Rhian Brewster neu Eurgain Haf ar 029 20 396838 neu ebostiwch r.brewster@savethechildren.org.uk neu e.haf@savethechildren.org.uk. Cewch fwy o wybodaeth hefyd ar ein tudalen Facebook @savethechildrenwales a Twitter @savechildrencym.

Wyt ti'n hoffi darllen?

Rydym ni yng ngwasg Y Lolfa wrth ein bodd a chael ein trwynau mewn llyfr!

Ar ein **blog newydd sbon**, Y Silff Lyfrau, byddwn yn trafod beth sydd ar ein silff lyfrau ni, adolygiadau, argymhellion darllen, trafodaethau, penodau esgliwsif, blogs gan rhai o awduron Y Lolfa, cyfweliadau – a llawer mwy!

Mae croeso cynnes i ti gyfrannu hefyd -- beth yw ti'n ei ddarllen ar hyn o bryd? Oes gen ti adolygiad neu rywbeth hoffet ei ddweud? Cysyllta a ni!

Cofia ymweld a'n gwefan ni www.ylolfa.com am fwy o deitlau!





Croesair Col
Atebion Hydref

T	A	L	E	N	T	O	G		C	L	E	C
A		O		E		E		G		O		L
B	E	R	W	I		R		W	FF	T	I	A
W		I		LL		D		A				S
			A	T	G	E	N	H	E	D	L	U
B		C		U		R		A		A		R
A	D	E	G	O			A	N	D	W	Y	O
R		G		L		E		I		N		L
C	E	U	B	R	E	N	N	A	U			
U				W		W		E		Y		U
T	O	LL	D	Y		O		TH		S		S
A		W		DD		G		Y		I		U
N	W	Y	D		D	I	O	DD	E	G	A	R

Bwrw golwg unigryw ar rai o erddi hyfryta' Cymru

Bydd y gyfres ddiweddaraf o **Gerddi Cymru** yn datgelu sut mae dwy o erddi hyfryta' Cymru wedi cael eu hadnewyddu ers iddyn nhw gael eu difetha gan lifogydd y llynedd.

Cafodd Gardd Cadnant ym Mhorthaethwy yn Sir Fôn a Gardd Restredig Gradd 1 Castell Gwydir ger Llanrwst eu boddi gan lifogydd difrifol ar Ŵyl San Steffan 2015.

Yn y gyfres newydd, sy'n dechrau nos Sul, 6 Tachwedd, mae'r cyflwynydd Aled Samuel yn ymweld â'r gerddi yma i weld sut maen nhw wedi cael eu trawsnewid ers hynny.

Dywedodd Aled, sy'n wreiddiol o Bort Talbot ond bellach yn byw yn Llandeilo, "Ar fore Gŵyl San Steffan, daeth llif anferth drwy ganol Gardd Cadnant, bwrw'r wal i lawr a difetha'r ardd yng ngwaelod y dyffryn wrth i lif o gerrig a mwd ddisgyn. Ond fe aethon ni yna ryw dri neu bedwar mis ar ôl y digwyddiad a phrin y byddet ti'n sylwi bod unrhyw beth wedi digwydd.

"Mae Gardd Gwydir mewn sefyllfa lai ffodus, gan fod llifogydd yn effeithio arni'n fwy aml. Dyna yw natur y dyffryn ger Llanrwst. Ond roedd llifogydd y llynedd yn waeth nag arfer; mor rymus fel iddyn nhw ladd rhai o'r coed ywen. Mae'n rhyfeddol sut mae'r ardd wedi cael ei hadnewyddu mewn ychydig o fisoedd. Mae'r gerddi yma yn nwylo pobl sydd wedi eu ymroi'n llwyr i'w cynnal nhw. Mae llafur cariad y garddwyr yn anhygoel."

Yn ystod y gyfres bydd Aled yn ymweld ag amrywiaeth fawr o erddi eraill ym mhob cwr o Gymru. A bydd un rhaglen yn edrych yn benodol ar erddi Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.

"Rwy'n gyfarwydd iawn ag adeiladau Sain Ffagan, ac wedi gwneud rhaglenni am nifer ohonyn nhw ond doeddwn i ddim yn gyfarwydd â'r gerddi ac maen nhw'n agoriad llygad," ychwanegaodd Aled. "Gardd arall yr oeddwn i'n hoff iawn ohoni oedd Plas yn Rhiw ym Mhen Llyn. Maen nhw'n gwneud y mwya' o'r gwres sy'n dod o lif y gwlff i'r bae gerllaw. Mae nifer o'r gerddi yn y gyfres hon yn rhai sydd mewn dwylo preifat. Maen nhw'n llai na rhai sy'n perthyn i ymddiriedolaethau ond yn hynod ddifyr."

Ymysg y gerddi eraill sy'n ymddangos yn y gyfres mae: gerddi Castell Picton ger Hwlffordd, gerddi Cwrt Wyndcliffe ger Cas-gwent, gerddi Castell Upton ger Doc Penfro, gerddi neuadd Abaty Cwm Hir ym Mhowys, gerddi Plas Bodysgallen ger Llandudno, Gerddi Veddw ger Cas-gwent a gerddi Castell y Waun.

Gerddi Cymru Nos Sul, 6 Tachwedd 7.30, S4C. Ar gael ar alw ar s4c.cymru, iPlayer a llwyfannau eraill. Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C

Ysgol Evan James

(Lluniau tudalen 17)

Dosbarth Ysbaddaden, Blodeuwedd a Phwyll a Rhiannon
Aeth blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad i Bwll Mawr i ddysgu am hanes glo a glowyr yn ein hardal ni. Cafwyd hwyl a sbri yn teithio o dan y ddaear ac roedd hi'n brofiad hynod o ddiddorol cael profi sut fath o fywyd oedd hi i blant, oedolion ac anifeiliaid yn y pyllau glo.

Culhwch ac Olwen, Branwen a Bendigeidfran
Cafwyd trip penigamp i Techniquest i ddysgu am y corff. Rydyn ni wedi bod yn astudio George's Marvellous Medicine – cawsom brynhawn o hwyl yn creu moddion ein hun.

Bl 1 a 2
Daeth Miss Davies i'n gweld gyda'i babi, Eva. Gofynnodd y plant gwestiynau gwych iddi ac fe ddysgom ni lawer am Eva. Diolch yn fawr.

Jac y Jwc a Sali Mali
Daeth Tony o Tesco i siarad am y cynhaeaf. Cawsom gyfle i flasu ffrwythau a bwyta bara gyda jam! Blasus iawn!

Cylch Meithrin Evan James
Mae plant Cylch Meithrin Evan James wedi bod yn casglu dail a chnau i greu pethau Hydrefol Hyfryd. Lot o hwyl a sbri yn dysgu am yr Hydref!

Chwaraeon
Mae criw o fechgyn o flwyddyn 5 a 6 wedi cael eu dewis i gynrychioli tîm Ysgolion Pontypridd mewn rygbi felly llongyfarchiadau mawr i Iestyn Thomas, Ben Huxtable, Owain Caer a Joseff Edwards. Da iawn chi fechgyn!

Mae Lauren Payne wedi llwyddo cael ei dewis i chwarae dros dîm De Cymru ar gyfer merched. Felly, mae Lauren nawr yn chwarae dros dîm Llanulltud Faerdref, Dinas Caerdydd a De Cymru! Gwych Lauren!

Blwyddyn 6
Cafodd blwyddyn 6 yr anrhydedd o gymryd rhan mewn rhaglen deledu newydd o'r enw 'Pigo dy Drwyn'. Aethom i ffilmio'r rhaglen lawr yn stiwdio enfys yng Nghaerdydd. Ar ôl cystadleuaeth agos iawn, bu Evan James yn fuddugol yn erbyn Ysgol Mynydd Bychan. Hwre!

Amgueddfa Pontypridd
Aeth dosbarth Pwyll a Rhiannon a Blodeuwedd ar ymweliad draw i amgueddfa Pontypridd i gymryd rhan mewn gweithdy hanesyddol. Cafwyd hwyl a sbri yn defnyddio dyfeisiau Groeg a Rhufain Hynafol.

High School Musical
Diolch yn fawr i Ysgol Gyfun Gartholwg am eu perfformiad gwych o High School Musical. Roedd y plant wrth eu boddau yn gwylio'r sioe ac rwy'n siŵr ei bod hi wedi sbarduno nifer o blant i fod yn actorion yn y dyfodol.

Ysgol Dolau

(Lluniau tudalen 17)

Eisteddfod yr Urdd
Ar ddydd Sadwrn Hydref 8fed roedd Ysgol Dolau wedi ymuno gyda'r orymdaith ym Mhen-y-bont i groesawu Eisteddfod yr Urdd yn dod i ardal Pen-y-bont ym mis Mai 2017. Daeth sawl teulu i ymuno a cherdded tuag at gaeau chwarae Newbridge lle fwynheuodd y plant adloniant fyw gyda nifer o stondinau a gweithgareddau hwylus wedi eu darparu ar eu cyfer. Da iawn Mr Evans am stiwardio a chadw ni'n ddiogel ar ein taith!

Roald Dahl
Bu'r ysgol gyfan yn dathlu canmlwyddiant Roald Dahl yn ystod y tymor cyntaf. Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo yn eu hoff gymeriad gan ymgymryd mewn nifer o weithgareddau yn seiliedig ar ei lyfrau a chymeriadau. Roedd pob dosbarth yn astudio llyfr arbennig fel rhan o'u gwaith thema.

Llwyddiannau
Llongyfarchiadau i dri o'n disgyblion am gyrraedd tîm rygbi Ysgolion Pontypridd eleni - pob lwc i Jack Beazer, Elliott Donocan-Davies a Luke Evans.

Rygbi
Mae'r tymor wedi dechrau! Gwelwyd ddechrau'r tymor gyda'r tîm yn chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn ysgolion lleol o fewn ardal Pontyclun. Chwaraeon yn dda gan ennill 3 a cholli 2. Roedd y tîm yn ffodus iawn hefyd i gael hyfforddiant tag gan ddisgyblion ysgol gyfun Pencoed. Aeth y tîm i ysgol Pencoed lle wnaeth disgyblion TGAU yr ysgol ddysgu sgiliau a chwarae gemau tag gyda nhw. Diolch yn fawr i'r disgyblion yna.

Croeso i'r Feithrin
Cafodd disgyblion a rheini'r feithrin hwyl yn ystod ein parti croesawu yn yr ysgol. Roedd yn gyfle i'r rhieni gwrdd â'i gilydd a gweld eu plant meithrin yn hapus ac wedi setlo yn yr ysgol, yn ogystal â chwrdd â ffrindiau newydd eu plant. Diolch yn fawr i'r CRhA am ddarparu'r wledd. Dechrau rhagorol i fywyd ysgol.

Côr Godre'r Garth

Dros benwythnos cyntaf mis Hydref bu aelodau Côr Godre'r Garth ar daith i dde Lloegr. Ddydd Sadwrn ymwelodd y côr â phorthladd Portsmouth a chael gweld y datblygiadau newydd yno ac ymweld ag arddangosfa creiriau y Mary Rose, llong rhyfel o'r 16eg ganrif.

Ddydd Sul teithiwyd i Gosport a chyfle ar fore hyfryd o braf i grwydro ar y fferi yn ôl i Portsmouth i weld y siopau ac hamddena.

Brynhawn Sul roedd Eglwys Gosport yn llawn ar gyfer Cyngerdd awr amser te. Rhoddwyd croeso arbennig i'r Côr a gwerthfawrogwyd y datganiad.

Mae'r Côr nawr yn paratoi ar gyfer cyngerdd Nadolig yn Efail Isaf ar 18 Rhagfyr. Croeso i aelodau newydd — 7yh nos Sul yn Neuadd Efail Isaf.

YR HEN LYFRGELL

4.11.16 Geraint Lovegreen a'r Enw Da £10 – Tocynnau ar gael o Bodlon a'r Caffi Bar + http://geraintlovgreen.eventbrite.co.uk

5.11.16 Cymru v Awstralia 14:30

12.11.16 Cymru v Ariannin 17:30

17.11.16 Beaujolais Nouveau
Bydd Yr Hen Lyfrgell yn dathlu dydd Beaujolais Nouveau trwy gynnig Platter Canna Deli i ddau a Photel o Beaujolais @ £25

18.11.16 Alys Williams
£10 – Tocynnau ar gael o Bodlon a'r Caffi Bar + https://alyswilliams.eventbrite.co.uk

19.11.16 Cymru v Japan 14:30

26.11.16 Cymru v De Affrica 17:30

Mwy o wybodaeth am holl ddigwyddiadau'r Hen Lyfrgell ar gael yma: http://yrhenlyfrgell.cymru/digwyddiadau

Ysgol Dolau (Lluniau tudalen 16)

Gorymdaith Eisteddfod yr Urdd

Mr Evans yn Stiwardio

Superted wedi cyrraedd

Ysgol Evan James
(Tudalen 16)

Rhaglen deledu newydd 'Pigo dy Drwyn'.

Dysgu am hanes y pyllau glo

Tony o Tesco yn siarad am y cynhaeaf

Gweithdy hanesyddol yn Amgueddfa Pontypridd

Bore Coffi McMillan Ysgol Pont Sion Norton

Ysgol Castellau

Llongyfarchiadau mawr i aelodau Cyngor yr Ysgol am eleni. Nawr mae'r gwaith caled yn dechrau!

Y Cyngor Eco newydd yn barod i ddechrau ar y gwaith o ennill y drydedd Faner Werdd.

Sganiwch hwn i weld sut mae plant 4 oed yn Ysgol Castellau yn adio dau rif.

Dechrau da i'r tymor rygbi newydd wrth i'r tîm ennill pob un o'u pedair gêm cyntaf. Cyd chwarae a gweithio'n galed oedd y gyfrinach. Daliwch ati bois!

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-rwyd yr ysgol am ddod yn ail yng nghystadleuaeth yr Urdd. Yn dilyn buddugoliaethau yn erbyn Gartholwg 2-1, Dolau 3-1, Llantrisant 2-0 a Trelales 2-0 daeth y merched o fewn trwch blewyn o ennill yn y ffeinal hefyd. Mae'n argoeli i fod yn dymor da ferched!

Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones yn ymuno â chriw Ysgol Castellau wrth orymdeithio trwy strydoedd Penybont i groesawu Eisteddfod Yr Urdd 2017 i'r ardal. Mae'r cyffro wedi dechrau!

Ysgol Pont-Sion-Norton

Mair yn ymddeol

Yr ysgol yn dathlu 65 oed

Mesur ffon hud Rala Rwdins

Atgoffa am Bresenoldeb yn yr ysgol

Gorymdaith Eisteddfod 2017 ym Mhenybont

Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rieni am drefnu Bore Coffi llwyddiannus iawn ar gyfer elusen Macmillan. Diolch hefyd i Mrs Parfitt a merched y gegin am baratoi cacennau a brechdanau bacwn bendigedig. Codwyd £306.16 ar gyfer yr elusen. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi.

YSGOL LLANHARI

Gwyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd
Hyfryd oedd cael y cyfle fel unig ysgol 3-19 dalgylch yr Eisteddfod i groesawu'r Urdd i'n hardal ar fore Sadwrn yr 8fed o Hydref ym Mhen-y-Bont. Roedd cynrychiolaeth gref o Lanhari ymysg bron i 4 mil o bobl yn cefnogi'r Orymdaith drwy ganol y dref gyda band yn arwain y ffordd cyn i ni gyrraedd caeau Newbridge. Diolch i'r rhieni, i'r plant ac i'r staff a ddaeth i gefnogi. Braf iawn oedd gweld cymaint yn cerdded fel rhan o garfan Ysgol Llanhari.

Diwrnod Cenedlaethol CPR
Cynhaliwyd hyfforddiant i holl ddisgyblion bl7-10 ar dechnegau CPR yn ystod ein diwrnod ABCh diweddar. Diolch yn fawr i Mr Colin Pari am ein harwain drwy hyn.

Ymweliad Tomi
Gan fod Dosbarth Cadi Cwningen wedi bod yn dysgu am bwysigrwydd gofalu am eraill, daeth Miss Rowlands a'i chi i'r dosbarth! Roedd y plant wrth eu boddau yn mwytho Tomi ac yn mynd ag e am dro ar dir yr ysgol! Braf oedd cael cwrdd â Tomi!

Cwrs preswyl Caerdydd
Cafodd disgyblion blwyddyn 7 dridiau penigamp ar ddiwedd Medi ar eu cwrs preswyl blynyddol yng Nghaerdydd. Roedd yn gyfle gwych i gymdeithasu ac i weld atyniadau'r ddinas. Diolch i Miss Angharad Morgan am drefnu ac i'r staff am roi o'u hamser.

Fforwm Ieuenctid
Mae'r Fforwm iaith yn mynd o nerth i nerth o dan arweiniad Gwyndaf Lewis ein swyddog o'r Urdd. Cynhaliwyd gwasanaeth yn ddiweddar ac yna yn yr wythnos cyn hanner tymor gig gyda'r grwp Chroma. Roedd disgyblion CA3 wrth eu bodd ac edrychwn ymlaen at fwy o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Pwyllgor Elusennol Prysur
Llwyddodd pwyllgor elusen y chweched i godi dros £400 yn y bore coffi Macmillan yn ddiweddar a nhw hefyd a drefnodd y casgliad nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Pontyclun. Diolch am eich arweiniaqd – Plant mewn Angen fydd nesaf!

Llwyddiant Pêl-droed
Llongyfarchiadau i dri disgybl talentog o flwyddyn 8 sydd wedi eu dewis i gynrychioli y Sir mewn pêl-droed. Da iawn Jac Clay, Tomi Booth a Gruff Morgan. Tomi yw'r capten am y tymor. Ewch amdani fechgyn!

Croesawu disgyblion o'r Adran Uwchradd i'r adran Gynradd
Rydym wedi croesawu disgyblion o'r Adran Uwchradd i'r Adran Gynradd yn ystod y tymor. Maent wedi bod wrthi yn cynorthwyo yn y dosbarthiadau. Mae Jordanne East, Ela Edwards a Morgan McArthy wedi bod yn helpu yn y dosbarthiadau ac mae Rhys Thomas a Beca Ellis wedi bod yn helpu gyda clwb chwaraeon blwyddyn 3 a 4. Diolch i bob un.

Gwasanaeth y Cynhaeaf yn y cynradd a'r uwchradd
Daeth y disgyblion cynradd i gyd at ei gilydd er mwyn dathlu'r Cynhaeaf ar Hydref 14eg. Buom yn ffodus iawn bod y Parchedig S. Rees wedi ymuno â ni i siarad am bwysigrwydd rhannu a helpu pobl sydd angen ychydig o gymorth. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd duniau a phecynnau bwyd sych. Ar yr un adeg, pwyllgor elusennol y chweched a fu yn gyfrifol am wasanaeth yr adran uwchradd ac roedd yn hyfryd ymuno â'r disgyblion iau i ddosabarthu y bwyd sych i fanc bwyd Pontyclun cyn hanner tymor.

Ponty Yn Brwydro Ymlaen

Mae cychwyn y tymor newydd wedi bod yn un digon anodd i Glwb Rygbi Pontypridd, ond gyda'r tim yn brwydro ymlaen er gwaethaf pob anhawster gyda'r bwriad unwaith eto o herio am lwyddiant yn y gynghrair a'r cwpanau.

Yr hyn sydd wedi llethu pob ymdrech yn anad dim yw rhestr hir o anafiadau, amryw ohonynt yn rhai difrifol, gyda gymaint a phymtheg aelod o'r garfan wedi eu heffeithio.

Mae pedwar chwaraewr - yr asgellwr Chris Clayton, y mewnwr Wayne Evans, y prop Pat Palmer a'r blaen-asgellwr Darren Waters wedi cael llaw-driniaethau, ac eraill fel y cefnwr Geraint Walsh, a dorrodd ei goes, hefyd yn absennol am gyfnodau hir.

Ar adegau bu'n rhaid i Bontypridd ofyn benthyg chwaraewyr o glybiau eraill i lanw'r bylchau, gyda safleoedd y rheng flaen yn y pac yn enwedig yn brin.

Bwrw mlaen gyda'r bwriad o fod yn gystadleuol er gwaethaf yr anafiadau oedd yr agwedd, ac yn ystod mis cyntaf y tymor llwyddodd Ponty i ennill pedair a cholli un o'u gemau yn yr Uwch Gynghrair. Roedd y buddugoliaethau weithiau yn rhai agos, ond yn galluogi Pontypridd i aros o fewn cyrraedd yn hanner uchaf tabl y gynghrair.

Bydd gorffen ymysg wyth uchaf y tabl erbyn y flwyddyn newydd yn hanfodol, gan fod y gynghrair wedyn yn hollti yn ddwy, gyda'r wyth uchaf a'r wyth isaf yn mynd ymlaen i chwarae ei gilydd mewn 'is-adrannau' hyd ddiwedd y tymor. Adeg yr hollti bydd yr holl ganlyniadau blaenorol yn cael eu diddymu, gyda phob clwb yn cychwyn o'r newydd gyda 'llechen lan'.

Gyda'r anafiadau yn raddol yn clirio a nifer o chwaraewyr dylanwadol yn agos at ddychwelyd, gall Pontypridd obeithio am ail hanner mwy positif i'r tymor.

I ddilyn hynt a helynt Clwb Rygbi Pontypridd galwch mewn i'r wefan www.ponty.net - mae croeso yno i bawb!